


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau

## Cyfnod 4 Y Llyfryn Rheolau Cyffredinol

© Hawlfraint y Goron 2024 WG49940 ISBN digidol: 978-1-83625-044-9

## Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau

## Y Llyfryn Rheolau Cyffredinol

## Cefnogi'r economi wledig a'r newid i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi ein hymrwymiadau i barhau i gefnogi ffermwyr i gynhyrchu bwyd mewn ffordd gynaliadwy, gan gymryd camau hefyd i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a helpu i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Gwneir hynny trwy'r fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) ar gyfer cefnogi a rheoleiddio amaethyddiaeth yng Nghymru. Mae hwnnw'n cwmpasu cyfraniad amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol ffermwyr yng Nghymru, gan ddarparu fframwaith cymorth hyblyg. Mae cynlluniau – gan gynnwys y Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau – yn cyfrannu at amcanion canlynol yr SLM:

- Cynhyrchu byd a nwyddau eraill mewn ffordd gynaliadwy
- Lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo
- Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision y maen nhw'n eu cynnig
- Diogelu a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol, a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt ac ymwneud y cyhoedd â nhw, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd

## Adran A – Cyflwyniad

Mae'r Nodiadau Canllaw hyn yn esbonio'r cynllun Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau. Darllenwch nhw'n ofalus. Os ydych yn credu wedyn y gallai eich cynlluniau buddsoddi fod yn gymwys ar gyfer cymorth o dan y cynllun hwn, a'ch bod am wneud cais, gweler 'Sut i Wneud Cais' yn adran C a'r llyfryn Sut i Lenwi.

Bydd y cyfnod ymgeisio yn agor ar **13 Hydref 2025** ac yn cau ar **21 Tachwedd 2025**

Y dyraniad cyllideb dangosol ar gyfer y cyfnod ymgeisio hwn yw **£1,000,000**.

Mae'r cynllun Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau yn gynllun cyfalaf wedi'i gynllunio i gefnogi ffermwyr yng Nghymru i wella'r ffordd maent yn rheoli maethynnau ar y fferm, drwy fuddsoddi mewn seilwaith sydd eisoes yn bodoli ar ffermydd.

Rhoddir cymorth i wahanu dŵr glaw a slyri oddi wrth ardaloedd fel ardaloedd bwydo da byw, ardaloedd casglu da byw, ardaloedd storio tail, storfeydd slyri a storfeydd silwair presennol.

Yr amcanion yw cynyddu lefelau buddsoddi ar y fferm, gwella perfformiad technegol, a chynyddu effeithlonrwydd cynhyrchu ac effeithlonrwydd adnoddau ar y fferm.

Mae Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau yn darparu buddsoddiadau cyfalaf ar gyfer offer y nodwyd ymlaen llaw a fydd yn darparu manteision clir a mesuradwy i fentrau fferm yng Nghymru. Mae'r eitemau cyfalaf wedi cael eu pennu, ynghyd â chost safonol ar gyfer pob eitem.

Darllenwch y rheolau a'r canllawiau ar y cynllun Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau cyn cyflwyno datganiad o ddiddordeb.

Bydd unrhyw newidiadau yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru, GWLAD ar-lein a, lle bo angen, byddwn yn cysylltu â chi'n uniongyrchol.

## Adran B: Pwy sy'n gymwys ar gyfer Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau

## Rydych yn gymwys i wneud cais os ydych yn bodloni'r meini prawf isod:

- Rydych wedi'ch cofrestru gyda Llywodraeth Cymru ac wedi cael Cyfeirnod Cwsmer (CRN). I gael canllawiau ar sut i gofrestru, ewch i wefan Llywodraeth Cymru neu ffoniwch Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW ar 0300 062 5004. Rhaid ichi:
    - fod yn gynhyrchydd cynradd cynhyrchion amaethyddol
    - bod â thri hectar o dir amaethyddol cymwys yng Nghymru sydd wedi'i gofrestru gydag RPW, neu
    - allu dangos mwy na 550 o oriau llafur safonol

Byddwn yn gwirio a oes gennych hawliad cymwys o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol, y Cynllun Troi'n Organig neu'r Cynllun Cymorth Organig i gadarnhau a ydych yn gynhyrchydd cynradd cynhyrchion amaethyddol, a bod gennych dri hectar o dir amaethyddol cymwys yng Nghymru.

Os nad ydych wedi cyflwyno hawliadau i unrhyw un o'r 3 chynllun, bydd rhaid ichi gyflwyno tystiolaeth ddogfennol gyda'ch datganiad o ddiddordeb i gadarnhau eich bod yn gynhyrchydd cynradd cynhyrchion amaethyddol, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd naill ai ar sail tri hectar o dir amaethyddol cymwys yng Nghymru wedi'i gofrestru gydag RPW , neu ar sail 550 o oriau llafur safonol. Os nad yw'r dystiolaeth ddogfennol yn cael ei chyflwyno erbyn y dyddiad cau ar gyfer datgan diddordeb, bydd eich datganiad o ddiddordeb yn cael ei wrthod.

Mae cynhyrchwyr cynradd cynhyrchion amaethyddol yn cynnwys y sectorau ffermio canlynol:

- cnydau âr
- eidion
- llaeth
- geifr
- garddwriaeth (gan gynnwys hydroponeg ac acwaponeg)
- moch
- dofednod
- defaid
- cadw gwenyn

## Nid ydych yn gymwys:

- os ydych yn gwsmer sy'n cadw ceffylau (gan gynnwys pori ceffylau).
- os ydych yn gwsmer coedwigaeth (gan gynnwys pobl sy'n berchen ar goetir yn unig).
- os ydych yn grŵp o ffermwyr (gan gynnwys Cymdeithasau Cynhyrchwyr).
- Fodd bynnag, os yw dau ddaliad amaethyddol neu fwy'n cael eu rheoli fel uned unigol neu fod un person yn berchen arnynt neu eu bod i ryw raddau'n cael eu rheoli ar y cyd, a bod ganddynt gyfrifon ariannol cyffredin, da byw cyffredin, peiriannau a/neu storfeydd bwyd cyffredin, byddant yn cael eu hystyried yn un busnes.
- Os ydych yn cael Dyfarniad Grant drwy'r cynllun Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau ar gyfer yr un ardal/eitemau.

## Costau cymwys

Dim ond ar gyfer eitemau a restrir yn y Rhestr o Eitemau Cyfalaf Cymwys yn Atodiad A y byddwch yn gymwys i gael taliad.

Rhaid i'r eitemau a brynir fodloni neu ragori ar y fanyleb ofynnol a ddisgrifir.

## Costau Anghymwys

- Defnyddio deunyddiau ail law.
- Adeiladu ardaloedd storio tail, ardaloedd casglu da byw, ardaloedd bwydo da byw, storfeydd slyri a storfeydd silwair newydd.
- Ardaloedd trin da byw ac ardaloedd bwydo â sylfaen garreg / pridd.
- Ardaloedd bwydo da byw dros dro.
- Iardiau cyffredinol lle na chynhyrchir slyri.
- Toeau dros ardaloedd trin da byw dros dro, e.e. unedau trin defaid / gwartheg symudol.
- Toeau neu adeiladau da byw newydd yn lle rhai sy'n bodoli eisoes.
- Addasu'r ardal sydd wedi cael cymorth gan y cynllun Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau i'w defnyddio at ddibenion eraill, e.e. adeiladau da byw, storfeydd.

Dim ond pan fydd yr hawliwr wedi talu'r gost yn gywir ac yn llawn, cyn cyflwyno hawliad, y mae costau sy'n gysylltiedig â phrynu offer yn gymwys. Felly, nid yw costau llawn unrhyw offer a gafwyd dan gytundeb hurbwrcasu neu logi prydles neu unrhyw fath arall o drefniant ariannol yn gymwys ar gyfer cymorth grant.

## Uchafswm Cyfradd ac Uchafswm Trothwy'r Grant

Uchafswm y grant yw **£15,000** a'r isafswm yw **£3,000**.

Mae'r grant yn darparu hyd at 40% o werth buddsoddiadau cyfalaf mewn offer (ac eithrio TAW) y nodwyd ymlaen llaw eu bod yn cynnig buddiannau clir a mesuradwy i fusnesau fferm.

Caiff eich cais fod yn fwy na'r uchafswm grant. Os dewisir eich datganiad o ddiddordeb, bydd yr hawliad cysylltiedig yn cael ei gapio i'r uchafswm o £15,000.

Yr uchafswm grant sydd ar gael i ymgeiswyr cymwys yw £15,000.

## Gofynion Allweddol

Rhaid prynu pob eitem o fewn 12 mis i'r Llythyr Dyfarnu Grant gael ei roi.

Rhaid sicrhau bod yr holl eitemau a brynwyd ar y safle pan fyddwch yn cyflwyno eich hawliad.

Ar gyfer ardaloedd bwydo da byw, ardaloedd casglu da byw ac ardaloedd storio tail presennol, rhaid i ymgeiswyr ddangos bod gan yr ardal lawr sy’n anhydraidd i ddŵr e.e. concrid.

Bydd angen dangos y llawr presennol yn y datganiad o ddiddordeb gan ddefnyddio ffotograffau â geotag.

Pan fydd to yn cael ei adeiladu dros storfa silwair neu slyri, mae'n debyg y bydd hyn yn cael effaith ar strwythur yr adeilad presennol, felly mae angen rhoi o leiaf 14 diwrnod o rybudd i Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) cyn dechrau adeiladu storfa slyri, neu cyn ei hadeiladu neu'n ei hehangu'n sylweddol.

Ar gyfer prosiectau sy'n derbyn cymorth gan y cynllun Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau, rhaid i ymgeiswyr sy'n derbyn cymorth ar gyfer to dros storfa silwair neu slyri, ni waeth beth yw'r amgylchiadau, hysbysu CNC 14 diwrnod cyn dechrau'r gwaith adeiladu.

Argymhellir yn gryf eich bod yn lleihau'r risg o golli unrhyw esemptiad sydd gennych ar gyfer eich storfa ar hyn o bryd, ac yn lleihau'r risg o dderbyn hysbysiad gorfodi, drwy gynnwys CNC yn gynnar yn y broses. Gall gwneud hyn osgoi camgymeriadau costus.

Nodwch, os oes angen caniatâd cynllunio arnoch, mae CNC yn ymgynghorai statudol yn y broses gynllunio.

Rhaid cyfeirio'r dŵr glaw wedi'i wahanu o'r ardal sydd newydd ei gorchuddio i ddraen dŵr glân neu system cynaeafu dŵr glaw briodol. Rhaid ymgorffori cafnau glaw / pibellau glaw priodol yn y strwythur newydd. Rhaid dargyfeirio gorlif o system cynaeafu dŵr glaw i ddraen dŵr glân.

Rhaid cadw'r holl slyri yn yr ardal yn unol â'r rheoliadau presennol, a'i ddargyfeirio i storfa wedi'i hadeiladu'n addas neu i danc derbyn priodol.

Dylai pob adeilad fodloni BS 5502 rhan 22:2013 – wedi'i gynllunio i wrthsefyll y llwythi nodweddiadol y bydd yn agored iddynt, yn seiliedig ar y ffordd mae'n cael ei ddefnyddio a'i leoliad. Os yw wedi cael ei weithgynhyrchu oddi ar y safle i'w chodi'n ddiweddarach, dylai'r uned ddwyn nod CE. Ar gyfer unrhyw strwythur nad yw'n dwyn nod CE, bydd angen i'r ymgeisydd ddangos ei fod yn cydymffurfio â BS 5502 rhan 22:2013 drwy ddarparu cyfrifiadau strwythurol gan beirianwyr â chymwysterau addas.

Bydd angen i ddeunyddiau'r to allu gwrthsefyll rhwd a lleihau cyddwysiad. Er mwyn sicrhau hyn, dylai'r cladin fod wedi'i wneud o sment ffeibr neu, fel arall, ddur proffiliedig wedi'i inswleiddio ag araen o blastig os gall hyn fodloni'r gofynion o ran gwrthsefyll rhwd. Dylai tulathau fod wedi'u gwneud o bren wedi'i drin neu ddur galfanedig – pren wedi'i drin sydd orau. Er bod dur wedi'i baentio yn ddigon da, byddai dur galfanedig yn ddewis gwell am ei fod yn para'n hirach.

Rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod wedi ystyried y canlynol hefyd.

## Caniatâd Cynllunio

Os oes angen caniatâd cynllunio ar eich buddsoddiad, ni fydd unrhyw grant yn cael ei dalu nes bod y dogfennau cymeradwyo cynllunio wedi cael eu cyflwyno a'u dilysu gan Lywodraeth Cymru.

Os yw'r awdurdod cynllunio wedi penderfynu nad oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer y prosiect, bydd angen ichi ddarparu tystiolaeth gan yr awdurdod cynllunio i gadarnhau hyn.

## Cymeradwyaeth Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau)

Os oes angen cymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo SDCau ar gyfer eich buddsoddiad, ni fydd unrhyw grant yn cael ei dalu nes bod y dogfennau cymeradwyo SDCau wedi cael eu cyflwyno a'u dilysu gan Lywodraeth Cymru.

I gael trosolwg o'r hyn sydd angen cymeradwyaeth corff cymeradwyo SDCau ac i gael canllawiau manylach, ewch i wefan Llywodraeth Cymru yn: [Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau): canllawiau | LLYW.CYMRU]

Os yw'r corff cymeradwyo SDCau lleol wedi penderfynu nad oes angen cymeradwyaeth ar gyfer y prosiect, bydd angen ichi ddarparu tystiolaeth gan y corff i gadarnhau hyn. Er bod cymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo SDCau yn annibynnol ar ganiatâd cynllunio, bydd y dystiolaeth a gyflwynir gennych yn cael ei hasesu gan y tîm gwerthuso mewn modd sy'n gyson â'i brosesau ar gyfer ymdrin â chaniatâd cynllunio.

Ar gyfer rhai ceisiadau am waith adeiladu sydd â goblygiadau draenio y mae angen cymeradwyaeth corff cymeradwyo SDCau ar eu cyfer, mae'n bosibl na fydd angen caniatâd cynllunio gan yr awdurdod cynllunio lleol (er enghraifft, datblygiad a ganiateir sy'n llai na 100 metr sgwâr). Felly, ni ddylid tybio bod diffyg angen caniatâd cynllunio yn dileu'r angen am gymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo SDCau

## Caniatadau Eraill

Mae pob cydsyniad, trwydded a chaniatâd arall wedi cael eu rhoi yn ôl yr angen.

Cydymffurfiaeth â safonau gofynnol a gofynion deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd, hylendid, lles anifeiliaid a'r holl safonau iechyd a diogelwch perthnasol.

## Adran C – Gwneud cais i'r cynllun Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau

## RPW Ar-lein

Dim ond drwy ddefnyddio Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein y gellir gwneud cais i'r cynllun Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau. Os oes gennych Gyfeirnod Cwsmer (CRN) eisoes, dylech fod wedi cael llythyr gyda'ch cod actifadu arno fel y gallwch agor cyfrif. Os ydych wedi'i golli, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 (Llun – Iau 8.30am – 5pm, Gwener 8.30am – 4.30pm) a rhoi eich CRN i'r cysylltydd. Bydd cod actifadu newydd yn cael ei anfon atoch.

I gofrestru manylion eich busnes am y tro cyntaf, mae angen ichi gwblhau'r ffurflen gofrestru ar-lein. Ewch i'r **canllawiau ar sut i gofrestru** am ragor o wybodaeth. Mae modd cwblhau'r rhan fwyaf o newidiadau i fanylion busnes ar-lein. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen hysbysu Llywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau mawr. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid.

Ar ôl cofrestru, gallwch ddefnyddio eich **cyfrif Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein.** Mae'r datganiad o ddiddordeb ar gyfer y cynllun Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau ar gael yn yr adran 'Ceisiadau a Hawliadau' yn eich cyfrif.

Os oes gennych asiant yn gweithio ar eich rhan, bydd angen iddo gofrestru fel asiant gydag RPW. Os nad ydych wedi gwneud hyn eto, dylech gwblhau copi ar-lein neu gopi caled o'r ffurflen Manylion Cwsmer Asiant / Undeb Ffermwyr (Cymru) ar unwaith. Mae'r ffurflen ar gael ar **wefan Llywodraeth Cymru**. Ar ôl derbyn y ffurflen, byddwn yn anfon cyfeirnod cwsmer asiant a chod actifadu ar gyfer Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein. Hefyd, bydd angen ichi gwblhau Ffurflen Awdurdodi Cysylltiad ar ôl cofrestru gyda Thaliadau Gwledig Cymru Ar-lein. Gweler ein **canllawiau ar sut i gofrestru**.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gofrestru gydag RPW Ar-lein neu am ddatgan diddordeb, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004. Byddant yn gallu eich cynghori a rhoi gwybod ichi ble gallwch fynd i gael cymorth digidol.

Mae rhagor o wybodaeth am RPW (Taliadau Gwledig Cymru) Ar-lein ar gael ar **wefan Llywodraeth Cymru**.

## Adran D: Y datganiad o ddiddordeb a'r broses ddethol

## Cyflwyno datganiad o ddiddordeb

Mae canllawiau ar sut i gyflwyno eich datganiad o ddiddordeb drwy RPW Ar-lein ar gael yma:

https://www.llyw.cymru/grantiau-bach-gorchuddio-lardiau-ffenestr-4-gan-defnyddio-rpw-ar-lein-i-wneud-cais

Rhaid defnyddio gwasanaethau Rheoli fy Nhir RPW Ar-lein i hysbysu RPW am unrhyw gofrestriadau tir. Rhaid ichi gyflwyno eich dogfennau Rheoli fy Nhir, a'r holl ddogfennau ategol, i'n hysbysu am gofrestriadau tir er mwyn i eitemau a ddewiswyd ar y tir hwnnw fod yn gymwys i gael eu hystyried i'w dewis.

Mae angen ffotograffau â geotag cyn ac ar ôl cwblhau'r gwaith, er mwyn dangos bod yr ardaloedd o seilwaith fferm sy'n derbyn cymorth yn gymwys. Ar gyfer prif eitemau, mae angen o leiaf pedwar ffotograff ar gyfer pob eitem – wedi'u tynnu o gyfeiriadau gwahanol i ddangos tystiolaeth o'r holl ardal yn y cais. Lle mae'r lleoliad yn caniatáu hynny, mae angen ffotograff o gyfeiriad y gogledd, y de, y dwyrain a'r gorllewin.

Gweler y canllawiau ar wahân ar sut i gyflwyno ffotograffau â geotag ar gyfer y cynllun Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau, am fanylion ynghylch sut i gyflwyno eich ffotograffau â geotag:

https://llyw.cymru/grantiau-bach-gorchuddio-iardiau-canllawiau-ffotograff-geotag

**Pan gyflwynir y datganiad o ddiddordeb, rhaid i ffotograffau â geotag ddangos y canlynol:**

- Yr ardal sydd i'w gorchuddio a'r ffordd mae'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd.
- Lleoliad yr ardal mewn perthynas â strwythurau parhaol cyfagos.
- Llawr presennol yr ardal gyfan.
- Lleoliad arfaethedig eitemau ategol.
- Os ydych yn gwneud cais am eitemau ategol a fydd mewn mwy nag un lleoliad, bydd angen ichi gyflwyno ffotograffau'n dangos pob lleoliad.
- Ar gyfer prif eitemau (toeau) mae angen o leiaf pedwar ffotograff ar gyfer pob eitem – wedi'u tynnu o gyfeiriadau gwahanol. Lle mae'r lleoliad yn caniatáu hynny, mae angen ffotograff o gyfeiriad y gogledd, y de, y dwyrain a'r gorllewin.

Cewch dynnu ffotograffau â geotag ychwanegol y tu hwnt i'r pellter 30 metr a ganiateir o leoliad yr eitem, er mwyn ychwanegu cyd-destun ac ategu'r ffotograff â geotag ar gyfer lleoliad yr eitem.

Mae angen i ffotograffau ddangos yn glir y lleoliad, y ffordd mae'r ardal yn cael ei ddefnyddio ac, os yw hynny'n briodol, deunydd y llawr, Os yw'r llawr wedi'i orchuddio â slyri neu dail, mewn angen golchi'r ardal berthnasol cyn tynnu'r ffotograffau â geotag.

Ar gyfer storfeydd slyri a silwair sy'n llawn a lle na ellir gweld y llawr, bydd angen ategu ffotograffau o'r ardal sydd i'w gorchuddio â disgrifiad o ddeunydd y llawr. Bydd angen tystiolaeth ffotograffig o'r llawr cyn i'r hawliad gael ei dalu. Os gwelir wedyn nad yw'r llawr yn anhydraidd i ddŵr, e.e. heb fod yn goncrit, mae'n bosibl y bydd yr hawliad yn cael ei wrthod.

Ar gyfer ardaloedd storio slyri nad ydynt yn cael eu gwagio'n llwyr yn ystod y flwyddyn ac lle nad oes modd tynnu ffotograffau, mae'n bosibl y bydd angen archwilio hawliadau cyn gwneud taliad.

Ar gyfer ardaloedd bwydo da byw nad ydynt yn cael eu defnyddio yn ystod yr haf, dylid cyflwyno ffotograffau o'r rhwystrau bwydo parhaol a'r lleoliad casglu slyri, ynghyd â disgrifiad o'r ffordd mae'n cael ei defnyddio yn ystod y gaeaf.

Os byddwch yn cyflwyno ffotograffau nad ydynt yn rhoi darlun clir o'r ardal sydd i'w gorchuddio a'r llawr, mae'n bosibl y bydd y cais yn gael ei wrthod.

Os ydych wedi cais ar gyfer mwy nag un brif eitem ac nid yw un eitem yn gymwys, mae'n bosibl y cynigir Dyfarniad Grant Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau ichi ar gyfer yr eitemau cymwys

Byddwn yn cyhoeddi uchafswm o ddau nodyn atgoffa ar gyfer datganiadau o ddiddordeb sydd yn y broses ddrafftio drwy eich cyfrif RPW Ar-lein cyn y dyddiad cau.

**Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y datganiad o ddiddordeb wedi'i gwblhau'n gywir a bod y wybodaeth a roddir i gefnogi eich prosiect yn gywir.**

## Dewis eitemau o'r rhestr o eitemau cymwys yn Atodiad A

Mae Atodiad A yn rhestru'r holl eitemau cymwys y gallwch wneud cais amdanynt o dan y cynllun Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau. Nodir bod eitemau yn 'brif eitemau' ac yn 'eitemau ategol'.

Bydd prif eitemau'n cyflawni amcanion y cynllun Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau.

Mae'r eitemau ategol yn rhai dewisol, ond maent yn amodol ar ddewis prif eitem yn gyntaf. Maent wedi'u cynnwys er mwyn sicrhau y gall y brif eitem gyflawni ei hamcanion.

## Dewis Datganiadau o Ddiddordeb Llwyddiannus

Os bydd eich datganiad o ddiddordeb yn cael ei ddewis, cewch wybod drwy eich cyfrif RPW Ar-lein.

Rhaid ichi brynu'r holl eitemau a chwblhau'r holl fuddsoddiadau, a hawlio am yr holl eitemau yn eich Dyfarniad Grant drwy eich cyfrif RPW Ar-lein, o fewn 12 mis i ddyddiad y Llythyr Dyfarnu Grant.

Rhaid ichi dderbyn y contract o fewn 30 diwrnod calendr i ddyddiad y Llythyr Dyfarnu Grant, drwy'r botwm glas ar hafan eich cyfrif RPW Ar-Lein. Ni chewch brynu'r eitemau yn eich datganiad o ddiddordeb nes bod Dyfarniad Grant wedi cael ei gynnig ichi

Os nad ydych yn derbyn y Dyfarniad Grant o fewn 30 diwrnod calendr, bydd y cynnig yn cael ei dynnu'n ôl.

Bydd manylion llawn ynghylch pryd y bydd rhaid ichi dderbyn y Dyfarniad Grant, a phryd y bydd rhaid ichi brynu'r eitemau a hawlio amdanynt, yn cael eu nodi yn eich Llythyr Dyfarnu Grant.

Byddwn yn cyhoeddi nodyn atgoffa drwy eich cyfrif RPW Ar-lein cyn y dyddiad cau yn eich llythyr.

Os ydych wedi derbyn contract Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau yn ystod y cyfnod ymgeisio blaenorol ac wedi tynnu'n ôl o'r cyfnod hwnnw ar ôl ichi dderbyn y contract, gall gwerth y contract gael ei dynnu o'r uchafswm grant o £15,000 sydd ar gael ichi yn y cyfnod ymgeisio hwn.

E.e. datganiad o ddiddordeb wedi'i gyflwyno a gyfer Cyfnod 3 a Dyfarniad Grant wedi'i gynnig â gwerth o £8,000. Pan fydd Dyfarniad Grant yn cael ei dderbyn ond yn cael ei dynnu'n ôl, y cyfanswm a fydd ar gael ar gyfer cyfnod 4 fydd £7,000

## Sgorio

Mae pob eitem cyfalaf wedi cael ei sgorio yn erbyn y meini prawf canlynol:

- Defnyddio Adnoddau'n Effeithlon.
- Effeithlonrwydd Technegol.
- Iechyd a Lles Anifeiliaid.
- Iechyd a Diogelwch.

Dangosir y sgôr yn Atodiad A – *Rhestr o Eitemau Cyfalaf Cymwys* ar bwys pob eitem unigol.

Ar ôl ichi gyflwyno eich datganiad o ddiddordeb, rhoddir sgôr i bob prif eitem. Wedyn, bydd y sgôr ar gyfer pob eitem yn cael ei lluosi â ffactor ar gyfer ble mewn ardal â blaenoriaeth o ran ansawdd dŵr y mae wedi'i lleoli a bydd sgôr ardal â blaenoriaeth o ran maint y dŵr yn cael ei hychwanegu ati ar gyfer y parsel y mae'r brif eitem ynddo. Ni fydd sgoriau ychwanegol (gwelliannau) yn cael eu hychwanegu ond pan fydd y brif eitem wedi'i lleoli mewn ardal â blaenoriaeth o ran misglod perlog yr afon neu wyniaid, mewn ardal lle mae tystiolaeth o broblemau maethynnau, mewn SoDdGAau biolegol (gan gynnwys lleiniau clustogi o 300m) ac mewn ardaloedd sydd â blaenoriaeth ar sail afonydd sensitif a llynnoedd sensitif. Mae'r matrics sgorio yn Atodiad A. Mae mapiau sy'n dangos lleoliad ardaloedd â blaenoriaeth ar sail ansawdd dŵr, maint y dŵr, misglod berlog yr afon a gwyniad yma:

https://llyw.cymru/map-sgorio-glastir-uwch.

Mae'r map tystiolaeth o broblemau maethynnau ar gael yn:

https://www.llyw.cymru/grantiau-bach-gorchuddio-iardiau-map-tystiolaeth-o-faterion-maetholion

Mae angen i ymgeiswyr ddewis eitemau cyfalaf hyd at werth y grant mwyaf y gellir ei ddyfarnu, sef £15,000, neu un eitem ychwanegol sy'n werth mwy na'r swm hwn. Bydd y grant yn cael ei gapio i £15,000. Bydd y system yn cyfrif eich sgôr yn awtomatig drwy gyfrif cyfartaledd y pwyntiau ar gyfer pob eitem unigol.

Bydd yr holl ddatganiadau o ddiddordeb yn cael eu sgorio a'u trefnu yn ôl eu sgôr. Cynigir Dyfarniadau Grant i'r datganiadau o ddiddordeb sydd wedi cael y sgôr uchaf, yn unol â'r cyllid sydd ar gael.

Pan fydd ceisiadau'n ennill yr un sgôr, y cais am y gwerth isaf a ddewisir gyntaf.

Pan fydd ceisiadau wedi cael yr un sgôr, ynghyd â'r un gwerth a'r un safle ar y trothwy cyllid sydd ar gael, mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i naill ai ddewis neu wrthod y ceisiadau hyn, yn dibynnu ar y gyllideb sydd ar gael.

Diben y broses sgorio yw galluogi i Lywodraeth Cymru drefnu'r datganiadau o ddiddordeb yn ôl faint o arian sydd ar gael ym mhob cyfnod ymgeisio.

## Tynnu datganiadau o ddiddordeb yn ôl

**Pan fydd busnes wedi cyflwyno cais i'r cynllun Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau, a oes modd ei dynnu'n ôl?**

**A. Oes, os bydd y cyfnod datgan diddordeb ar agor**

Gallwch dynnu eich cais yn ôl drwy 'Fy Negeseuon' yn eich cyfrif RPW Ar-lein – cewch wedyn ailgyflwyno cais cyn i'r cyfnod gau.

**B. Oes – ar ôl i gyfnod datgan diddordeb gau OND cyn i'r busnes dderbyn y Llythyr Dyfarnu Grant.**

Gallwch dynnu eich cais yn ôl drwy 'Fy Negeseuon' yn eich cyfrif RPW Ar-lein.
Os ydych wedi dewis yr eitem anghywir neu wedi newid eich meddwl am yr eitem rydych wedi'i dewis neu na wnaethoch chi weld yr eitem roeddech am ei dewis, yna gallwch dynnu'r cais yn ôl a gwneud cais arall yn y rownd nesaf.
Cofiwch fod y broses ymgeisio'n un gystadleuol ac nad oes gwarant y byddwch yn llwyddiannus yn y rownd nesaf.

**C. Nac oes – ar ôl i fusnes gael ei ddewis a Dyfarniad Grant gael ei gynnig i'r busnes**

Ni allwn dderbyn datganiad o ddiddordeb yn cael ei dynnu'n ôl ar ôl i Lythyr Dyfarnu Grant gael ei roi.

Ni allwn dderbyn newidiadau i'r eitemau ar y Dyfarniad Grant ar yr adeg hon.

Ar ôl ichi gael eich dewis, os byddwch yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'ch Dyfarniad Grant, neu os na fyddwch wedi derbyn y Dyfarniad Grant o fewn yr amser a ganiateir, heb ddigon o gyfiawnhad dros hynny, mae'n bosibl na chewch wneud cais o dan unrhyw rowndiau'r cynllun Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau yn y dyfodol.

Os byddwch chi'n dewis gadael y Dyfarniad Grant cyn cwblhau'r gwaith neu os na fyddwch yn cwblhau'r holl waith a gymeradwywyd yn eich contract, ni chewch wneud cais i'r cynllun Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau mewn unrhyw gyfnod ymgeisio arall, ac efallai y bydd gofyn ichi ad-dalu unrhyw arian sydd wedi'i dalu ichi.

Rhaid ichi brynu, gosod a hawlio am yr holl eitemau ar eich Dyfarniad Grant drwy eich cyfrif RPW Ar-lein o fewn un flwyddyn i ddyddiad y Llythyr Dyfarnu Grant.

## ADRAN E – Amodau'r Grant

Mae'r cynllun Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau yn ddarostyngedig i amrediad o ddeddfwriaeth berthnasol (gweler Adran K). Rhaid i Lywodraeth Cymru a'r ymgeisydd/derbynnydd weithredu yn unol â'r ddeddfwriaeth honno.

Mae'r cynnig o grant o dan y cynllun Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau yn cael ei wneud yn amodol ar delerau ac amodau, a fydd yn cael eu nodi yn llawn yn eich Llythyr Dyfarnu Grant, gan gynnwys y telerau a'r amodau a nodir isod. Bydd y Dyfarniad Grant yn para 12 mis ar ôl dyddiad cyhoeddi'r Llythyr Dyfarnu Grant. **Gallai methu â bodloni telerau ac amodau'r dyfarniad arwain at ganslo eich dyfarniad a/neu adennill y symiau sydd eisoes wedi'u talu ichi, neu leihau cyfanswm y grant sy'n daladwy.**

Rydym ni (Llywodraeth Cymru) eisiau gweithio gyda sefydliadau sy'n falch o'u henw da a'r hyn y maent yn ei gyflenwi, a'u hymddygiad. Bydd y ddolen ganlynol yn eich cyfeirio at ganllawiau sydd wedi'u cynllunio i amlygu ac egluro'r mathau o ymddygiadau, diwylliannau a gwerthoedd y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl eu gweld gan y rhai sy'n derbyn grant.

https://www.llyw.cymru/yr-hyn-y-mae-llywodraeth-cymru-yn-ei-ddisgwyl-gan-y-rhai-hynny-syn-derbyn-grant-html

## Amodau:

Gwneir y dyfarniad ar sail datganiadau a wnaed gennych chi neu'ch cynrychiolwyr ar y ffurflen gais a'r ffurflen hawlio ac yn yr ohebiaeth a dderbyniwyd wedi hynny. **Mae'n drosedd gwneud datganiadau anwir neu gamarweiniol.**

Rhaid ichi brynu'r offer a chyflwyno hawliad drwy RPW Ar-lein erbyn y dyddiad cau ar gyfer hawlio a nodir yn y Llythyr Dyfarnu Grant. **Os nad ydych wedi cyflwyno cais erbyn y dyddiad hwnnw, bydd y Dyfarniad Grant yn cael ei dynnu'n ôl yn awtomatig.**

Mae'n bosibl y bydd angen i Lywodraeth Cymru ddiweddaru'r rheolau a'r amodau er mwyn ystyried newidiadau i ofynion deddfwriaethol y DU, gan gynnwys Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Rydych yn cytuno i gydymffurfio ag unrhyw newidiadau ar ôl cael eich hysbysu amdanynt gan Weinidogion Cymru.

Rydych yn cytuno i gydymffurfio â'r holl gyfreithiau, rheoliadau neu gyfarwyddebau swyddogol – yn ddomestig ac yn rhyngwladol.

Ni chewch newid prosiect, gan gynnwys lleoliad y gweithgareddau, heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.

Ni ellir gwaredu, trosglwyddo neu werthu offer a brynwyd â chymorth grant yn ystod y prosiect ac am bum mlynedd ar ôl dyddiad gorffen y Grant heb ganiatâd ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru ymlaen llaw. Efallai bydd yn rhaid ad-dalu'r grant a ddyfarnwyd yn llawn os bydd hyn yn digwydd.

.
Rhaid ichi darllen a deall rheolau a chanllawiau perthnasol y cynllun.

Rhaid bod y manylion rydych wedi'u rhoi ar y ceisiadau ac unrhyw ddogfennau ategol yn wir, yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf eich gwybodaeth a'ch cred.

Rydych yn cydnabod na fydd Llywodraeth Cymru nac unrhyw gynghorydd a benodir gan Lywodraeth Cymru yn gyfrifol am unrhyw gyngor a roddir, heb gyfyngiad, mewn perthynas â'r ceisiadau, a'ch bod chi yn llwyr gyfrifol am y penderfyniadau busnes a wneir.

Mae'n rhaid ichi gydymffurfio â'r rheolau ar gostau cymwys fel y'u nodir yn y Llyfryn Rheolau Cyffredinol hwn.

Rhaid cwblhau prosiectau yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni gyda Llywodraeth Cymru. Ni ddylech wyro o'r amserlen hon heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.

Rhaid i hawliadau gael eu cyflwyno drwy ddefnyddio ffurflen hawlio grantiau RPW Ar-lein a rhaid cynnwys yr holl ddogfennau sydd eu hangen o dan y cynllun.

Rhaid i hawliadau gael eu cyflwyno yn unol â'r amserlen a nodir yn y Llythyr Dyfarnu Grant. Ni ddylech wyro o'r amserlen y cytunwyd arni na newid gwerth eich hawliadau heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.

Rydych yn ymrwymo i fodloni, yn ôl yr angen, unrhyw rwymedigaethau mewn perthynas â sicrhau caniatâd cynllunio.

Mae'n rhaid ichi gadarnhau nad yw unrhyw eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y cais yn cymryd lle eitemau sy'n destun hawliad yswiriant.

Rhaid ichi gadarnhau nad ydych wedi gwneud cais am unrhyw gyllid cyhoeddus arall. Os yw'n dod i'r amlwg eich bod wedi derbyn cyllid cyhoeddus o ffynhonnell arall, gall hynny arwain at wrthod eich hawliad, adennill taliadau a chyflwyno cosbau.

Lle bo'n berthnasol, bydd y dyfarniad grant yn cynnwys adran ar gyfer Atodlen 6 - Datganiad sicrwydd: gweithdrefnau gwrth-dwyll a llywodraethu. Ni fydd angen i chi gwblhau a chyflwyno'r atodlen hon pan fyddwch yn derbyn eich cynnig am ddyfarniad grant, bydd fersiwn o'r templed ar gael i chi ei chwblhau ar y ffurflen hawlio contract.

Rhaid cadw cofnodion mewn perthynas â'r cais a'r hawliad am y grant hwn, gan gynnwys pob anfoneb wreiddiol ac unrhyw ddogfennau perthnasol eraill, am o leiaf pum mlynedd ar ôl dyddiad dod i ben y prosiect.

Rydych yn ymrwymo i fodloni unrhyw rwymedigaethau fel iechyd a diogelwch, cyflogaeth, hylendid, rheoli a diogelu'r amgylchedd, ac iechyd a lles anifeiliaid neu gnydau a fydd yn berthnasol yn ystod cyfnod y prosiect hwn.

Rhaid ichi ganiatáu i gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru, neu eu cynrychiolwyr, gael mynediad at y tir ac unrhyw offer perthnasol a'u harchwilio. Os gofynnir ichi, rhaid ichi roi gwybodaeth iddynt a/neu ganiatáu iddynt weld y dogfennau gwreiddiol sy'n ymwneud â'r prosiect.

Mae'r wybodaeth a roddir yn y cais ac mewn dogfennau cysylltiedig yn ddarostyngedig i ofynion Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

**Os bydd eich cais yn llwyddiannus, dylech fod yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i gyhoeddi enw eich cwmni, cyfanswm y grant a ddyfarnwyd ichi a chrynodeb o'ch prosiect.**

Mae'r wybodaeth a roddir yn y cais yn ddarostyngedig i'r Hysbysiad Preifatrwydd. Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd yn esbonio sut y mae Llywodraeth Cymru yn prosesu ac yn defnyddio eich data personol a'ch hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

## Adran F – Taliadau
## Hawliadau

Mae'n rhaid ichi ddefnyddio'r dudalen Hawlio Grantiau yn eich cyfrif RPW Ar-lein i wneud cais i'r cynllun Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau. Gwneir taliadau pan fydd eich hawliad wedi cael ei ddilysu'n llwyddiannus. Dim ond pan fydd Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y gwariant perthnasol wedi cael ei wneud a bod y gwaith wedi cael ei gwblhau y bydd hawliadau'n cael eu talu. Bydd taliadau'n cael eu gwneud drwy drosglwyddiad electronig i'ch cyfrif banc.

Er mwyn derbyn taliadau gan y cynllun Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau rhaid ichi:

- Dderbyn Dyfarniad Grant Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau o fewn 30 diwrnod calendr i ddyddiad y Dyfarniad a chydymffurfio â'r holl ofynion.
- Sicrhau mai dim ond ar ôl ichi dderbyn y Llythyr Dyfarnu Grant yr ydych wedi prynu'r eitemau a restrir yn eich Llythyr Dyfarnu Grant.
- Sicrhau eich bod wedi prynu'r **holl** brif eitemau a restrir yn eich Llythyr Dyfarnu Grant.
- Sicrhau bod yr holl eitemau a brynwyd ar y safle pan fyddwch yn cyflwyno eich hawliad.
- Cyflwyno'r hawliad gan ddefnyddio'r dudalen Hawlio Grant yn eich cyfrif RPW Ar-Lein o fewn 12 mis i ddyddiad y Llythyr Dyfarnu Grant. **Rhaid hefyd gyflwyno'r holl ddogfennau ategol sydd eu hangen erbyn y dyddiad hwn.**
- Cyflwyno anfonebau ar gyfer yr holl eitemau yr hawliwyd amdanynt, gan gynnwys dimensiynau arwynebedd y to.
- Cyflwyno ffotograffau â geotag yn dangos lleoliad y buddsoddiad a'r gwaith wedi'i gwblhau.
- Ffotograffau â geotag sy'n dangos all-lif y dŵr glaw sydd wedi cael i ddargyfeirio a'r ffordd y mae slyri/elifion yn cael eu casglu o'r tu mewn i'r ardal dan do, ac yn dangos bod yr eitem yn bodloni'r disgrifiad a'r gofynion a amlinellir yn Atodiad A.
- Cyflwyno dogfennau cymeradwyo cynllunio. Os yw'r awdurdod cynllunio wedi penderfynu nad oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer y prosiect, bydd angen ichi ddarparu tystiolaeth gan yr awdurdod cynllunio i gadarnhau hyn.
- Cyflwyno cymeradwyaeth ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) gan gorff gymeradwyo SDCau neu dystiolaeth gan y corff perthnasol nad oes angen cymeradwyaeth.
- Cyflwyno tystiolaeth bod CNC wedi cael eu hysbysu eich bod yn adeiladu to dros storfa silwair neu slyri, 14 diwrnod cyn dechrau ar y gwaith adeiladu.
- Cyflwyno'r hawliad drwy ddefnyddio'r dudalen Hawlio Grant yn eich cyfrif RPW Ar-lein erbyn y dyddiad cau ar gyfer hawliadau – sef 12 mis ar ôl cyhoeddi'r Llythyr Dyfarnu Grant – ynghyd â'r holl ddogfennau ategol.

Byddwn yn cyhoeddi uchafswm o ddau nodyn atgoffa ar gyfer unrhyw hawliadau heb eu cyflwyno drwy eich cyfrif RPW Ar-lein cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno hawliad.

Nid yw hawliad yn cael ei ystyried yn ddilys oni bai ei fod wedi cael ei gyflwyno **drwy dudalen Hawlio Grantiau RPW Ar-lein, ynghyd â'r holl ddogfennau ategol.**

Gallwch gyflwyno eich hawliad unrhyw adeg ar ôl cwblhau'r buddsoddiad.

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gellir derbyn ceisiadau am estyniadau i'r dyddiad cau ar gyfer hawlio. Rhaid gwneud hyn yn ysgrifenedig drwy eich cyfrif RPW Ar-lein cyn y dyddiad cau ar gyfer hawlio, gan egluro pam rydych wedi gofyn am estyniad.

**Ni roddir estyniadau y tu hwnt i 31 Mawrth 2027.**

## Dogfennau Ategol

**Rhaid ichi gyflwyno'r canlynol gyda'ch hawliad:**

- Anfonebau ar gyfer yr holl eitemau rydych yn hawlio amdanynt, gan nodi'n glir arwynebedd y to wedi'i adeiladu.
- **Ffotograffau â geotag o'r ardal y rhoddwyd to drosti a'r eitemau ategol ar ôl i'r buddsoddiad gael ei gwblhau.**
- Nid oes angen dogfennau cymeradwyo cynllunio na thystiolaeth o ganiatâd cynllunio.
- Cymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo SDCau neu dystiolaeth nad oes angen cymeradwyaeth o'r fath.

Ffotograff â geotag sy'n cynnwys gwybodaeth am y lleoliad o fewn data'r ffotograff. Bydd y rhan fwyaf o ffonau symudol â chysylltiad â'r rhyngrwyd yn cofnodi'r cyfesurynnau GPS yn awtomatig. Maent hefyd yn cofnodi'r dyddiad a'r amser y tynnwyd y ffotograff.
Bydd canllawiau manwl ar y ffotograffau â geotag sydd eu hangen a sut i'w cyflwyno ar gael ar y wefan yn ystod y cam hawlio.

Rhaid cyflwyno ffotograffau â geotag gyda'r dogfennau ategol i ddangos y canlynol:

- Y to newydd.
- Lleoliad yr ardal mewn perthynas â strwythurau parhaol cyfagos.
- Yr allfa a'r llif ar gyfer dŵr glaw wedi'i ddargyfeirio.
- Yr allfa / dull o gasglu slyri / dŵr brwnt o'r ardal wedi'i gorchuddio a'r llwybr at y tanc storio/storfa.
- Lleoliad y storfa slyri/pwll derbyn.
- Gosod eitemau ategol – ac eithrio pecynnau dadansoddi slyri.
- Os ydych yn hawlio am eitemau ategol sydd mewn mwy nag un lleoliad, bydd angen ichi gyflwyno ffotograffau sy'n dangos pob lleoliad.

Ar gyfer prif eitemau (toeau) bydd angen **o leiaf pedwar** ffotograff i ddangos y to newydd, wedi'u tynnu o gyfeiriadau gwahanol. Lle mae'r lleoliad yn caniatáu hynny, mae angen ffotograff o gyfeiriad y gogledd, y de, y dwyrain a'r gorllewin.

Gallwch gyflwyno anfonebau drwy eu sganio a'u hanfon drwy 'Fy negeseuon' yn eich cyfrif RPW Ar-lein.

## Contractau na chawsant eu cyflawni

Os bydd cyflenwr/gwneuthurwr wedi'ch hysbysu na all gyflenwi a chodi'r to neu na all gyflenwi a gosod yr eitemau ategol cyn y dyddiad cau ar gyfer hawlio, rhaid ichi gysylltu â ni drwy 'Fy Negeseuon' yn eich cyfrif RPW Ar-lein er mwyn rhoi gwybod am y broblem.

Bydd angen ichi ofyn am estyniad i'r dyddiad cau ar gyfer hawlio a darparu tystiolaeth i ddangos eich bod wedi archebu'r eitem a thystiolaeth ddogfennol gan y cyflenwr er mwyn cadarnhau na all gyflenwi neu osod yr eitem.

Rhaid i'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno erbyn y dyddiad cau gwreiddiol, sef o fewn 12 mis, a dangos eich bod wedi ceisio sicrhau bod yr eitem yn cael ei chyflenwi erbyn y dyddiad cau gwreiddiol.

Os na fydd caniatâd cynllunio (lle bo hynny'n berthnasol) wedi cael ei gadarnhau erbyn y dyddiad hawlio, bydd angen ichi ofyn am estyniad i'r dyddiad cau ar gyfer hawlio a darparu tystiolaeth i ddangos eich bod wedi gwneud cais am ganiatâd cynllunio, gan gynnwys y dyddiadau y gwnaed cais am y caniatâd. Ni fydd eich hawliad yn cael ei dalu nes bod y caniatâd cynllunio yn dod i law.

**Ni roddir estyniadau y tu hwnt i 31 Mawrth 2027.**

## Cam hawlio a chosbau

Mae gennych gyfrifoldeb i sicrhau bod yr hawliad a gyflwynir yn gymwys ac yn gywir, a bod yr holl eitemau a chostau'n gymwys a bod yr hawliad yn cael ei gyflwyno yn brydlon.

Mae'n rhaid i'r holl eitemau a gymeradwywyd fod wedi eu prynu ar **ôl i'r Llythyr Dyfarnu Grant gael ei roi.**

Bydd eich hawliad yn annilys yn yr amgylchiadau canlynol:

- Rydych wedi prynu eitemau cyn i'r Dyfarniad Grant gael ei gynnig.
- Nid ydych wedi prynu'r holl brif eitemau a restrir yn y Llythyr Dyfarnu Grant.
- Rydych wedi prynu eitem neu wedi cwblhau buddsoddiad nad yw'n bodloni'r fanyleb ofynnol.
- Rydych wedi methu cyflwyno hawliad a'r dogfennau ategol erbyn y dyddiad cau ar gyfer hawlio.
- Nid yw pob un o'r eitemau a hawliwyd yn bresennol ar eich daliad yn ystod archwiliad â'ch safle.

**Mae'n rhaid ichi hawlio am yr holl brif eitemau a restrir yn eich Llythyr Dyfarnu Grant.**

**Os na hawlir am bob prif eitem, bydd yr hawliad yn cael ei wrthod.**

Os ydym yn gweld nad oedd yr eitemau a brynwyd yn bodloni'r fanyleb, bydd y taliadau'n cael eu lleihau i werth yr eitemau a brynwyd yn unol â'r fanyleb ofynnol.

Os gwelir bod yr eitemau anghymwys yn fwy na 10% o'r eitemau cymwys, tynnir swm o'ch taliad sy'n cyfateb i werth yr eitemau anghymwys.

Er enghraifft

Mae cwsmer yn hawlio am eitemau o dan y cynllun Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau, gwerth cyfanswm o £10,000

| Eitem Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau | Nifer | Gwerth y Grant |
|---|---|---|
| To – ardal bwydo da byw | 250m sgwâr | £10,000 |
| To – ardal casglu da byw | 20m sgwâr | £800 |
| To – ardal storio tail | 26m sgwâr | £1,040 |
| **Cyfanswm** | | **£11,840** |

Yn yr enghraifft hon, nid yw'r to dros yr ardal casglu da byw, gwerth £800, yn bodloni'r fanyleb. Y cyfanswm a hawliwyd yw £11,840 a gwerth yr eitem anghymwys yw £800. Gan fod gwerth yr eitem anghymwys yn llai na 10% o'r costau cymwys (£11,040), cyfanswm y taliad sy'n ddyledus yw £11,040.

Fodd bynnag, os nad yw'r to dros yr ardal storio tail, gwerth £1,040, yn bodloni'r fanyleb, y cyfanswm a hawliwyd yw £11,840 a gwerth yr eitem anghymwys yw £1,040. Bydd gwerth yr eitem anghymwys, sef £1,040, yn cael ei dynnu o'r hawliad gwreiddiol o £11,840 gan adael swm o £10,800. Gan fod gwerth yr eitem anghymwys yn fwy na 10% o'r costau cymwys (£10,800) bydd swm sy'n cyfateb i werth yr eitem anghymwys, sef £1,040, yn cael ei dynnu o'r swm sy'n weddill hefyd. Cyfanswm y taliad sy'n ddyledus yw £9,760.

Os oes gennych unrhyw amheuon ynghylch unrhyw beth fydd ei angen arnoch ar gyfer eich Dyfarniad Grant, mae'n hanfodol eich bod yn cael cadarnhad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru ei fod yn gymwys cyn ichi ysgwyddo’r costau.

## Troseddau

Mae rheoliad 13 o Reoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014 (Rhif 3222 (Cy.327)) yn pennu troseddau a chosbau mewn perthynas ag elfennau penodol o gyllid datblygu gwledig. Mae’r Rheoliad hwnnw a’r troseddau hynny yn berthnasol i’r cynllun Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau. Mae troseddau'n cynnwys darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol, yn fwriadol neu’n fyrbwyll, mewn perthynas â chyllid datblygu gwledig; rhwystro arolygydd neu swyddog; a gwrthod darparu gwybodaeth ar gais.

### Ymddygiad annerbyniol

Ni ddylai swyddogion Llywodraeth Cymru, unigolion na sefydliadau sy’n gweithio ar ran Llywodraeth Cymru (e.e. CNC) oddef ymddygiad ymosodol, sarhaus na difrïol na gofynion afresymol a pharhaus gan ymgeiswyr / hawlwyr neu eu cynrychiolwyr. Felly hefyd aelodau’r Panel Apelio Annibynnol.
Mae **Rheoli ymddygiad annerbyniol gan gwsmeriaid Llywodraeth Cymru** yn esbonio beth yw ymddygiad annerbyniol yn ein barn ni.

**Gall ymddygiad annerbyniol arwain at dynnu taliadau yn ôl a/neu wrthod cais neu hawliad.**

## Adran G – Newidiadau i Reolau'r Cynllun

## Newidiadau i’r Ddeddfwriaeth (gan gynnwys Dehongliadau Newydd)

Gall deddfwriaeth newid o dro i dro a bydd yn ofynnol ichi gydymffurfio ag unrhyw newidiadau i’r cynllun yn dilyn hysbysiad gan Lywodraeth Cymru.

## Newidiadau i Reolau neu'r Dyfarniad Grant

Mae'n bosibl y bydd angen inni wneud newidiadau i reolau'r cynllun a/neu eich Dyfarniad Grant am nifer o resymau. Er enghraifft, efallai y bydd angen inni ddiweddaru'r amodau rheoli ar sail y cyngor gwyddonol diweddaraf, neu ddiwygio rheolau'r cynllun er mwyn ystyried unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth. Byddwn yn cyhoeddi newidiadau ar wefan Llywodraeth Cymru ac yn cysylltu â chi'n uniongyrchol os oes angen.

## Adran H – Rheolaethau, Monitro a Chadw Cofnodion

## Rheolaethau

Rhaid i Lywodraeth Cymru orfodi rheolau'r cynllun Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau.

Gall eich hawliad gael ei ddewis ar gyfer ymweliad i gadarnhau bod y buddsoddiad wedi cael ei wneud cyn ichi dderbyn y taliad neu ar ôl ichi dderbyn y taliad.

Bydd yr holl fanylion yn eich cais, y manylion yn eich hawliad a'r datganiadau a wnaethoch wrth gyflwyno'r cais a'r hawliad yn cael eu gwirio.

Bydd Llywodraeth Cymru a'r cyrff rheoli arbenigol yn ceisio sicrhau bod yr ymweliadau yn tarfu arnoch cyn lleied â phosibl, ond mae rhai gwiriadau yn gofyn am ymweliadau dirybudd, sy'n golygu na fydd yn bosibl eich hysbysu ymlaen llaw. Mae'n bosibl y byddwch yn cael mwy nag un ymweliad yn ystod blwyddyn galendr.

Os ydych yn gwrthod caniatáu ymweliad, yn rhwystro swyddog neu'n methu â rhoi cymorth rhesymol, mae'n bosibl na fydd eich hawliad yn cael ei dalu, gallwn adennill taliadau a gallwch gael eich erlyn.

## Monitro

Mae'n rhaid monitro pob dyfarniad grant a gwerthuso effaith y grant ar y busnes ar ôl cwblhau'r prosiect

Mae'n rhaid ichi ganiatáu i swyddogion Llywodraeth Cymru, neu eu cynrychiolwyr, archwilio'r eitemau a brynwyd yn ystod y pum mlynedd hwn.

Ymwelir â chanran o'r prosiectau a gymeradwywyd o fewn pum mlynedd i ddyddiad cwblhau'r prosiect (dyddiad diwedd y prosiect) i sicrhau bod yr ymgeisydd yn parhau i ddefnyddio'r offer a brynwyd â'r grant a bod y busnes yn perfformio yn ôl y disgwyl.

Un o ofynion y dyfarniad grant yw bod angen cadw'r offer a brynwyd â chymorth grant ar y safle, gan sicrhau ei fod yn weithredol ac mewn cyflwr da. Hefyd, rhaid iddo gael ei ddefnyddio at yr un diben â'r hyn a nodwyd yn y cais gwreiddiol, am o leiaf bum mlynedd ar ôl dyddiad cwblhau'r prosiect fel y nodir yn y Llythyr Dyfarnu Grant. Bydd hyn yn sicrhau hirhoedledd y prosiect ac yn sicrhau y bydd cynhyrchwyr cynradd yn gallu elwa ar fanteision y prosiect yn y tymor hir.

## Cadw cofnodion

Rhaid ichi gadw'r holl gofnodion a gwybodaeth sydd eu hangen arnoch i ddangos eich bod wedi darparu gwybodaeth gyflawn a chywir a'ch bod wedi cydymffurfio â'ch ymrwymiadau am bum mlynedd.

Bydd yn ofynnol ichi hefyd:

- Roi i Lywodraeth Cymru unrhyw wybodaeth am eich Dyfarniad Grant Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau a chyflwyno'r wybodaeth honno o fewn y cyfnod a bennir gan Lywodraeth Cymru.
- Sicrhau bod cofnodion, cyfrifon, derbynebau a gwybodaeth arall, gan gynnwys data ar gyfrifiadur, mewn perthynas â'ch Dyfarniad Grant Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau ar gael i Lywodraeth Cymru, ei swyddogion awdurdodedig a'i hasiantiaid eu gweld. Caniatáu i Lywodraeth Cymru gymryd dogfennau neu gofnod neu i wneud copïau neu godi darnau ohonynt.

## Adran I – Y Drefn Apelio a Chwyno

## Y Weithdrefn Apelio

Mae'r Broses Apeliadau Annibynnol ar gyfer Grantiau a Thaliadau Gwledig yn newid o'r 1 Ionawr 2026. Bydd canllawiau apeliadau diwygiedig yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru cyn y dyddiad hwn.

**Nid oes sail dros apelio yn y cam Datgan Diddordeb.**

Mae'r 'Broses Apelio Annibynnol ar gyfer Grantiau a Thaliadau Gwledig' yn rhoi caniatâd ichi ofyn am adolygiad os ydych yn teimlo nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud penderfyniad cywir yn unol â rheolau'r cynllun.

Mae'r broses apelio yn cynnwys dau gam:

- Cam 1: adolygiad gan RPW.
- Cam 2: adolygiad gan Banel Apelio Annibynnol (os ydych yn anfodlon ar ymateb Cam 1).

Mae'r Panel Annibynnol yn gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru, sy'n gwneud y penderfyniad terfynol, gan ddod â'r broses i ben.

Nid oes tâl am gynnal Cam 1 y broses ond mae tâl am gynnal Cam 2 – £50 am wrandawiad ysgrifenedig neu £100 am wrandawiad llafar. Bydd y taliadau hyn yn cael eu had-dalu'n llawn os bydd Cam 2 yr apêl naill ai'n llwyddiannus neu'r rhannol lwyddiannus.

Rhaid i apeliadau, gan gynnwys y dystiolaeth ategol, gael eu cyflwyno drwy RPW Ar-lein o fewn 60 diwrnod i ddyddiad y llythyr sy'n amlinellu'r penderfyniad rydych am apelio yn ei erbyn.

Mae croeso ichi apelio yn Gymraeg a byddwn yn ymateb i unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth brosesu eich apêl.

Rhaid i apelwyr a'u cynrychiolwyr beidio â chysylltu'n uniongyrchol ag aelodau'r Panel Apelio Annibynnol. Gallem ystyried hynny fel Ymddygiad Annerbyniol yn unol â'r canllaw **Rheoli ymddygiad annerbyniol gan gwsmeriaid Llywodraeth Cymru**.
**Gall ymddygiad annerbyniol arwain at dynnu taliadau yn ôl a/neu wrthod cais neu hawliad.**

Mae rhagor o wybodaeth am y broses apelio a sut i gyflwyno apêl drwy ddefnyddio'r ffurflen gais ar-lein ar gael gan y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid neu ein gwefan: [Apeliadau grantiau a thaliadau gwledig.]

## Y weithdrefn gwyno

Ymdrinnir â chwynion o dan weithdrefn Llywodraeth Cymru ar gwynion. Mae rhagor o wybodaeth am sut i wneud cwyn ar gael gan y Tîm Cynghori ar Gwynion:

Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn 03000 251378
E-bost: complaints@llyw.cymru
Gwefan: Cwynion am Lywodraeth Cymru

Cewch hefyd gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:

1 Ffordd yr Hen Gae,
Pen-coed,
CF35 5LJ

Ffôn 0300 790 0203
Gwefan: Ombwdsmon

## Adran J – Hysbysiad Preifatrwydd: grantiau Llywodraeth Cymru

## Sut y byddwn yn ymdrin ag unrhyw ddata personol a ddarperir gennych mewn perthynas â'ch cais am grant neu gyllid.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu amrywiol gynlluniau grant er mwyn helpu i gyflawni ein polisïau a chreu Cymru decach, fwy ffyniannus.

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych mewn perthynas â'ch cais am grant neu gyllid. Bydd y wybodaeth yn cael ei phrosesu fel rhan o'n gorchwyl cyhoeddus (h.y. arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru) ac yn ein helpu i asesu a ydych yn gymwys i gael cyllid.

Cyn rhoi cyllid grant ichi, rydym yn cynnal gwiriadau er mwyn atal twyll ac achosion o wyngalchu arian, ac i wirio pwy ydych chi. Fel rhan o'r gwiriadau hyn, mae'n ofynnol inni rannu data personol amdanoch chi ag asiantaethau atal twyll trydydd parti.

Os byddwn ni, neu asiantaethau atal twyll, yn penderfynu eich bod yn peri risg o ran twyll neu wyngalchu arian, efallai y byddwn yn gwrthod darparu'r cyllid grant rydych wedi gwneud cais amdano, neu'n rhoi'r gorau i ddarparu'r cyllid grant presennol ichi.

Bydd yr asiantaethau atal twyll yn cadw cofnod o unrhyw risg o dwyll neu wyngalchu arian, a gall hyn arwain at eraill yn gwrthod darparu gwasanaethau, cyllid neu gyflogaeth ichi.

Er mwyn asesu cymhwysedd efallai y bydd angen inni hefyd rannu gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â'ch cais â'r sefydliadau canlynol:

- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
- Y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol
- Awdurdodau Lleol Cymru
- Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
- DEFRA
- Swyddfeydd Amaethyddiaeth eraill Llywodraeth y DU.
- Awdurdodau rheoleiddio, megis Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, Awdurdodau Lleol, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a’r Heddlu.

Hefyd, mae’n bosibl y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth â sefydliadau sy’n darparu hyfforddiant, yn trosglwyddo gwybodaeth ac yn rhoi cyngor a chymorth ar arloesi ar ran Llywodraeth Cymru at ddibenion targedu cymorth yn briodol.

Gall eich gwybodaeth, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol, fod yn destun cais gan aelod arall o'r cyhoedd. Wrth ymateb i geisiadau o'r fath efallai y bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ryddhau gwybodaeth, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol, i gyflawni ei rhwymedigaethau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 neu Ddeddf Diogelu Data 2018.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi manylion y symiau a delir i fuddiolwyr Cymorth Gwledig. Cyhoeddir data ar gyfer pob buddiolwr, a bydd yn cynnwys enw a lleoliad y ffermwr/rheolwr tir a manylion y symiau ac enw’r cynllun. Ond, ni ddatgelir enwau’r rheini sy’n cael llai na’r hyn sy’n gyfwerth â £1,250 mewn cymorthdaliadau. Cyhoeddir y data bob blwyddyn ar 31 Mai a bydd y data ar gael am ddwy flynedd o’r dyddiad a gafodd ei gyhoeddi.

Byddwn yn cadw gwybodaeth bersonol mewn ffeiliau yn unol â’n polisi cadw data. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn cadw eich data personol am saith mlynedd ar ôl y dyddiad pan fyddwch chi, fel derbynnydd y grant, yn rhydd rhag holl amodau'r grant, a bod pob taliad wedi'i wneud. Os byddwch yn aflwyddiannus, byddwn yn cadw eich manylion am flwyddyn ar ôl y gwnaethoch eu rhoi inni.

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl i wneud y canlynol:

- gweld y data personol sydd gan Lywodraeth Cymru amdanoch
- gofyn inni gywiro gwallau yn y data hwnnw
- gwrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu’r data (o dan rai amgylchiadau)
- gofyn inni 'ddileu' eich data’ (o dan rai amgylchiadau)
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'r ffordd mae'n cael ei defnyddio, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y GDPR, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

E-bost: dataprotectionofficer@llyw.cymru

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Yr Ail Lawr,
Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

Rhif Ffôn: 0330 414 6421
Gwefan: https://ico.org.uk/

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y datganiad preifatrwydd hwn, cysylltwch â Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW.
Hysbysiad Preifatrwydd – grantiau Llywodraeth Cymru

## Adran K – Deddfwriaeth

Mae'r cynllun Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau yn cyflawni yn erbyn amrediad o ymrwymiadau ac amcanion y Llywodraeth. Mae'r rhain wedi'u rhestru isod ynghyd â'r ddeddfwriaeth a'r prosesau llywodraethu perthnasol.

Rheolir y cynllun Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau gan Reoliadau'r UE a ddargedwir Rhif 1305/2013, 1303/2013 ac 1306/2013, Rheoliad Gweithredu Rhif 808/2014 ac 809/2014 a Rheoliadau Dirprwyedig 640/2014 ac 807/2014 (fel y cânt eu diwygio o bryd i'w gilydd).

Mae Cyfraith yr UE a ddargedwir yn cael ei gweithredu yng Nghymru drwy'r gyfraith ddomestig ganlynol (fel y caiff ei diwygio o bryd i'w gilydd), gan gynnwys drwy'r Rheoliadau Cymorth Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021/400 (Cy.129):

- Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014/3222 (Cy.327)
- Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014/3223 (Cy.328)

Bydd cymorth ariannol ar gyfer ffermwyr, rheolwyr tir a sectorau gwledig cysylltiedig dros y tair blynedd nesaf yn ymateb i bedwar amcan strategol Llywodraeth Cymru, sef:

- Gwneud amaethyddiaeth yn fwy cystadleuol;
- Cyfrannu at reoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy fel y'i nodir yn Rhan 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016;
- Sicrhau cadernid hinsawdd;
- Sicrhau bod cymunedau ac economïau gwledig yn cael eu datblygu mewn ffordd diriogaethol a chytbwys, gan gynnwys creu a chynnal cyflogaeth.

Yn ogystal, mae'r cynllun Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau yn cynnwys tri amcan trawsbynciol:

- Lliniaru effaith newid yn yr hinsawdd ac addasu iddi;
- Arloesi
- Yr amgylchedd.

Bydd eich prosiect yn cyfrannu at yr amcanion trawsbynciol hyn.

Bydd eich prosiect yn cyfrannu at themâu trawsbynciol Llywodraeth Cymru, sef:

- Cyfle cyfartal a phrif ffrydio rhywedd;
- Trechu tlodi ac allgau cymdeithasol;
- Y Gymraeg.

Yn ogystal, bydd ceisiadau i'r cynllun Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau yn ystyried amcanion strategol a thematig Llywodraeth Cymru.

Bydd gweithgareddau'n mynd i'r afael ag **o leiaf un** o flaenoriaethau canlynol Llywodraeth Cymru:

(1) Annog pobl i rannu gwybodaeth ac i arloesi ym maes amaethyddiaeth a choedwigaeth, ac mewn ardaloedd gwledig;
(2) gwneud amaethyddiaeth yn fwy hyfyw a chystadleuol ar bob math o fferm, a hyrwyddo technolegau fferm arloesol a dulliau cynaliadwy o reoli coedwigoedd;
(3) Hyrwyddo cadwyni cyflenwi bwyd trefnus, gan gynnwys prosesu a marchnata cynhyrchion amaethyddol, lles anifeiliaid a rheoli risg mewn amaethyddiaeth;
(4) Adfer, cadw a gwella ecosystemau sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth a choedwigaeth;
(5) Hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau a chefnogi'r newid tuag at economi carbon isel sy'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd yn y sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth;
(6) Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, gwaith i leihau tlodi a datblygu'r economi mewn ardaloedd gwledig.

## Sefydliad Masnach y Byd a Rheoli Cymhorthdal

1. Mae cymorthdaliadau sy'n cael eu darparu o dan y cynllun hwn yn cael eu hystyried yn daliadau o dan raglen amgylcheddol, sy'n dod o fewn cwmpas Atodiad II o Gytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth ac sydd wedi cael eu categoreiddio'n rhai 'bocs gwyrdd'.
2. O ganlyniad, mae'r cymorthdaliadau hyn yn cael eu hesemptio o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE a system rheoli cymhorthdal dros dro y DU.

## Adran L – Cysylltiadau

## Ymholiadau – y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

Ar gyfer eich holl ymholiadau, cysylltwch â **Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW Ar-lein**

Gallwch ofyn cwestiwn drwy RPW Ar-lein ar unrhyw adeg.

## Mynediad at swyddfeydd Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ag anableddau neu anghenion arbennig

Os oes gennych anghenion arbennig a'ch bod yn teimlo nad yw ein cyfleusterau yn diwallu eich anghenion, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004. Wedyn bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cymryd pob cam posibl i ddiwallu eich anghenion.

## Gwefan Llywodraeth Cymru

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am Amaethyddiaeth a Materion Gwledig, ewch i wefan Llywodraeth Cymru. Drwy fynd i'r wefan bydd cyfle ichi gofrestru i e-newyddlen yr Adran Materion Gwledig gael ei hanfon atoch drwy e-bost.

## Gwlad

Gwlad yw e-newyddlen Llywodraeth Cymru ar gyfer busnesau fferm a choedwigaeth a phawb sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth a chefn gwlad Cymru. Mae'n cynnwys newyddion, canllawiau a gwybodaeth mewn fformat hygyrch, hawdd ei ddarllen. I sicrhau eich bod yn parhau i glywed am y newyddion a'r datblygiadau diweddaraf, byddwn yn eich annog i gofrestru i dderbyn e-newyddlen Gwlad: Gallwch wneud hyn naill ai yma https://llyw.cymru/hysbysiadau neu yma Tanysgrifio i Gwlad

# Cysylltiadau defnyddiol eraill:

**Cyfoeth Naturiol Cymru** ar gyfer tir dan gytundeb Safle o Ddiddordeb Arbennig Gwyddonol (SoDdGA), Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG), Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), neu Ardal Gwarchodaeth Arbennig (SPA):

Cyfoeth Naturiol Cymru
Maes y Ffynnon
Penrhosgarnedd
Bangor
Gwynedd
LL57 2DW

Ffôn: 0300 065 3000
Ymholiadau cyffredinol: 0300 065 3000 (Llun-Gwener, 8am – 6pm)
Ymholiadau cyffredinol: **enquiries@naturalresourceswales.gov.uk**

**Cadw** ar gyfer Henebion Cofrestredig a Pharciau a Gerddi Cofrestredig:

Cadw
Llywodraeth Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Parc Cefn Coed
Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QQ

Ffôn: 01443 33 6000
Ffacs: 01443 33 6001
E-bost: **Cadw@Wales.gsi.gov.uk**

Rydym yn croesawu galwadau'n Gymraeg.

**Ymddiriedolaethau Archeolegol:** Ar gyfer henebion neu nodweddion hanesyddol anghofrestredig, cysylltwch â'r Ymddiriedolaeth Archeolegol berthnasol yn eich ardal:

**Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys**
41 Broad Street
Y Trallwng
Powys
SY21 7RR

Ffôn: 01938 553670
Ffacs: 01938 552179
E-bost: trust@cpat.org.uk
Gwefan: www.cpat.org.uk

**Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent**
Heathfield House
Heathfield
Abertawe
SA1 6EL

Ffôn: 01792 655208
Ffacs: 01792 474469
E-bost: enquiries@ggat.org.uk
Gwefan: www.ggat.org.uk

**Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed**
Neuadd y Sir
Stryd Caerfyrddin
Llandeilo
SA19 6AF

Ffôn: 01558 823121
Ffacs: 01558 823133
E-bost: info@dyfedarchaeology.org.uk
Gwefan: www.dyfedarchaeology.org.uk

**Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd**
Craig Beuno
Ffordd y Garth
Bangor
Gwynedd
LL57 2RT

Ffôn: 01248 352535
Ffacs: 01248 370925
E-bost: gat@heneb.co.uk
Gwefan: www.heneb.co.uk

# Atodiad A – Rhestr o Eitemau Cyfalaf Cymwys

**Wrth gyflwyno hawliad, rhaid darparu tystiolaeth i ddangos bod yr ardal â tho yn bodloni'r gofynion yn llawn.**

## Prif eitemau

| | Eitem | Disgrifiad a'r gofynion sylfaenol | Sgôr | Cost safonol fesul metr sgwâr | Gwerth y grant fesul metr sgwâr |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. | To – ardal bwydo da byw | To na all dŵr glaw dreiddio drwyddo, gan gynnwys cilbyst cynhaliol, **sy'n cynnwys cafnau glaw a phibellau glaw**, dros ardal bwydo da byw oedd eisoes â llawr concrid ond heb do cyn hynny.<br><br>Bydd yr ardal gyfan o dan y to eisoes o dan lawr concrid na all dŵr dreiddio trwyddo.<br><br>Rhaid cadw'r holl slyri yn yr ardal yn unol â'r rheoliadau cyfredol a'i ddargyfeirio i storfa wedi'i hadeiladu'n addas neu i danc derbyn priodol.<br><br>Os caiff storfa neu bydew derbyn newydd ei (g)osod i gasglu'r slyri, rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig o o leiaf 14 diwrnod i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) **cyn** dechrau ar y gwaith adeiladu. Bydd angen dangos tystiolaeth o'r rhybudd hwn pan fyddwch yn hawlio.<br><br>Heb dystiolaeth bod yr holl slyri, dŵr ffo a dŵr brwnt (budr) yn cael eu casglu, ni fydd yr hawliad yn ddilys.<br><br>Rhaid dargyfeirio dŵr glân o'r to i ddraen dŵr glân neu i system cynaeafu dŵr glaw.<br><br>Mae'n rhaid i fan bwydo fod wedi'i amgáu er mwyn cadw da byw i mewn, gydag un ai waliau neu rwystrau parhaol, fydd yn cynnwys gatiau yn ôl y gofyn. Ni fydd mannau a gaiff eu hystyried yn fannau bwydo dros dro yn gymwys. | 32 | £100 / msg | £40 / msg |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Dylai'r ardal gael ei defnyddio gydol cyfnod bwydo'r gaeaf gyda'r da byw'n cael eu bwydo trwy drefniadau bwydo parhaol. Lle defnyddir cafnau bwydo dros dro neu symudol (e.e. i fwydo o gwmpas bêls), bydd angen tystiolaeth i ddangos cysylltiad yr ardal honno ag adeiladau'r anifeiliaid a'u cyflenwad dŵr a bod yr ardal yn ardal fwydo barhaol.<br><br>Nid yw mannau hunan-fwydo o fewn storfeydd silwair a/neu storfeydd silwair a ddefnyddir fel mannau bwydo yn gymwys o dan yr eitem hon. Dylech eu cyflwyno fel storfeydd silwair.<br><br>Mae corlannau o sglodion coed a buarthau gwellt heb lawr sy'n dal dŵr a lle na ellir crynhoi'r slyri a gynhyrchir yn anghymwys.<br><br>Rhaid i'r ardal dan do gael ei chadw'n ardal fwydo. Ni ddylai gosod to olygu y gellir defnyddio'r ardal fel adeilad i dda byw.<br><br>Ar gyfer ardaloedd bwydo da byw nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio yn yr haf, rhaid cyflwyno ffotograffau o'r bariwns bwydo parhaol a'r mannau casglu slyri a disgrifiad o'r modd y caiff ei ddefnyddio yn y gaeaf. | | | |
| 2 | To – ardal casglu da byw | To na all dŵr glaw dreiddio drwyddo, gan gynnwys cilbyst cynhaliol, **sy'n cynnwys cafnau glaw a phibellau glaw**, dros ardal casglu da byw oedd eisoes â llawr concrid ond heb do cyn hynny.<br><br>Bydd yr ardal gyfan o dan y to eisoes o dan lawr concrid na all dŵr dreiddio trwyddo.<br><br>Rhaid cadw'r holl slyri yn yr ardal yn unol â'r rheoliadau cyfredol a'i ddargyfeirio i storfa wedi'i hadeiladu'n addas neu i danc derbyn priodol.<br><br>Os caiff storfa neu bydew derbyn newydd ei (g)osod i gasglu'r slyri, rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig o o leiaf 14 diwrnod i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) **cyn** dechrau ar y gwaith adeiladu. Bydd angen dangos tystiolaeth o'r rhybudd hwn pan fyddwch yn hawlio. | 30 | £100 / msg | £40 / msg |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Rhaid dargyfeirio dŵr glân o'r to i ddraen dŵr glân neu i system cynaeafu dŵr glaw.<br><br>Mae'n rhaid i'r man crynhoi fod wedi'i amgáu er mwyn cadw da byw i mewn, gydag un ai waliau neu rwystrau parhaol, fydd yn cynnwys gatiau yn ôl y gofyn. Ni fydd mannau a gaiff eu hystyried yn fannau bwydo dros dro yn gymwys.<br><br>Rhaid dangos pwrpas yr ardal gasglu e.e. iard gasglu ar gyfer y parlwr godro neu fan casglu ar gyfer system trin da byw barhaol.<br><br>Nid yw ardaloedd rhwng adeiladau neu iardiau agored lle nad yw da byw yn teithio ar eu hyd yn aml yn gymwys.<br><br>Nid yw ardaloedd lle mae slyri yn cael eu crafu ohonyn nhw i storfa ar draws iardiau agored lle nad oes da byw yn gymwys.<br><br>Mannau casglu ar gyfer system trin da byw: bydd y systemau trin yn barhaol ac yn sownd wrth y llawr. Bydd toeau dros systemau trin symudol yn anghymwys.<br><br>Ni fydd systemau sy'n bod ar gyfer trin defaid neu wartheg yn gymwys os na fydd yr holl slyri, dŵr ffo a dŵr brwnt (budr) o olchion yn cael eu crynhoi yn unol â'r rheoliadau a'u dargyfeirio i storfa sydd wedi'u hadeiladu'n addas neu i danc derbyn priodol.<br><br>Os nad oes tystiolaeth bod yr holl slyri, dŵr ffo a dŵr brwnt yn cael eu casglu, nid fydd yr hawliad yn gymwys. (e.e. system trin defaid lle nad yw'r dŵr ffo'n cael ei gasglu: bydd angen amgáu'r ardal a dargyfeirio'r holl slyri, dŵr ffo a dŵr brwnt i storfa sydd wedi'i hadeiladu'n addas neu danc derbyn priodol. Rhaid rhoi o leiaf 14 diwrnod o rybudd ysgrifenedig i CNC cyn dechrau adeiladu'r storfa o dan unrhyw amgylchiadau.<br><br>Rhaid i'r ardal dan do gael ei chadw'n ardal gasglu. Ni ddylai gosod to olygu y gellir defnyddio'r ardal fel adeilad i dda byw. | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 3 | To – ardal storio tail | To na all dŵr glaw dreiddio drwyddo, gan gynnwys cilbyst cynhaliol, **sy'n cynnwys cafnau glaw a phibellau glaw**, dros ardal storio tail oedd eisoes â llawr concrid ond heb do cyn hynny.<br><br>Bydd yn storfa ar gyfer tail buarth (caled) ac **nid slyri.** Bydd y storfa'n addas ar gyfer unrhyw sarn (deunydd gwely) â thail organig ynddo y gellir ei bentyrru heb iddo sigo.<br><br>Bydd yr ardal gyfan o dan y to eisoes o dan lawr concrid na all dŵr dreiddio trwyddo.<br><br>Mae'r hylif a ddaw o dail caled sy'n cael ei storio ar lawr na all dŵr dreiddio trwyddo yn cael ei ystyried yn slyri a rhaid ei amgáu'n briodol. Rhaid dargyfeirio'r slyri i storfa slyri neu bydew derbyn priodol. Os nad oes storfa o'r fath, rhaid cadw'r holl elifion yn y cyfleuster.<br><br>Os caiff pydew derbyn newydd ei osod i gasglu'r slyri, rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig o o leiaf 14 diwrnod i CNC **cyn** dechrau ar y gwaith adeiladu. Bydd angen dangos tystiolaeth o'r rhybudd hwn pan fyddwch yn hawlio.<br><br>Bydd sylfaen waliau allanol yn gallu dal dŵr i rwystro hylif halogedig rhag llifo allan, neu i rwystro dŵr rhag dod i mewn.<br><br>Rhaid dargyfeirio dŵr glân o'r to i ddraen dŵr glân neu i system cynaeafu dŵr glaw.<br><br>Rhaid i'r ardal dan do gael ei chadw'n ardal storio tail. Ni ddylai gosod to olygu y gellir defnyddio'r ardal fel adeilad i dda byw. | 24 | £100 / msg | £40 / msg |
| 4 | To – storfeydd slyri | To na all dŵr glaw dreiddio drwyddo, gan gynnwys cilbyst cynhaliol,**sy'n cynnwys cafnau glaw a phibellau glaw**, dros storfa slyri oedd eisoes â llawr concrid ond heb do cyn hynny<br><br>Bydd sylfaen y storfa a'r waliau yn dal dŵr i rwystro hylif halogedig rhag llifo allan, ac i rwystro dŵr rhag dod i mewn. | 22 | £100 / msg | £40 / msg |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Rhaid dargyfeirio dŵr glân o'r to i ddraen dŵr glân neu i system cynaeafu dŵr glaw.<br><br>Mae to dros storfeydd crwn uwch y ddaear yn anghymwys.<br><br>Rhaid rhoi gwybod i CNC cyn dechrau'r gwaith adeiladu: *rhaid* rhoi rhybudd ysgrifenedig o o leiaf 14 diwrnod **cyn** dechrau adeiladu storfa newydd, ehangu storfa neu ailadeiladu storfa slyri. Bydd angen i **bob to dros storfa slyri** gydymffurfio â'r gofyn hwn. Bydd angen dangos tystiolaeth o'r rhybudd hwn pan fyddwch yn hawlio<br><br>Rydyn ni'n eich cynghori'n gryf i leihau'r risg rhag colli unrhyw esemptiad sydd gennych ar gyfer eich storfa a lleihau'r risg o gael hysbysiad gorfodi trwy gael CNC i fod yn gysylltiedig â'r gwaith yn fuan yn y broses er mwyn ichi allu osgoi camgymeriadau costus.<br><br>Pwysig: os oes angen caniatâd cynllunio arnoch chi, mae CNC yn un o'r rheini y mae'n rhaid ymgynghori â nhw fel rhan o'r broses gynllunio. | | | |
| 5 | To – storfeydd silwair | To na all dŵr glaw dreiddio drwyddo, gan gynnwys cilbyst cynhaliol,**sy'n cynnwys cafnau glaw a phibellau glaw**, dros storfa silwair oedd eisoes â llawr concrid ond heb do cyn hynny<br><br>Bydd sylfaen y storfa a'r waliau yn dal dŵr i rwystro hylif halogedig rhag llifo allan, ac i rwystro dŵr rhag dod i mewn.<br><br>Rhaid dargyfeirio dŵr glân o'r to i ddraen dŵr glân neu i system cynaeafu dŵr glaw.<br><br>Rhaid casglu sudd o'r silwair yn y storfa yn y tanc elifion neu'r storfa slyri.<br><br>Os caiff tanc newydd ei osod i gasglu sudd y silwair, rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig o o leiaf 14 diwrnod i CNC **cyn** dechrau ar y gwaith adeiladu. Bydd angen dangos tystiolaeth o'r rhybudd hwn pan fyddwch yn hawlio | 14 | £100 / msg | £40 / msg |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Mae to dros storfeydd bêls silwair mewn plastig yn anghymwys.<br><br>Mae codi to dros storfa silwair yn debygol o effeithio ar y strwythur sydd yno eisoes: *rhaid* rhoi rhybudd ysgrifenedig i CNC o o leiaf 14 diwrnod **cyn** dechrau adeiladu storfa newydd, ehangu storfa neu ailadeiladu storfa sy'n cadw silwair. Bydd angen i **bob to dros storfa silwair** gydymffurfio â'r gofyn hwn. Bydd angen dangos tystiolaeth o'r rhybudd hwn pan fyddwch yn hawlio<br><br>Rydyn ni'n eich cynghori'n gryf i leihau'r risg rhag colli unrhyw esemptiad sydd gennych ar gyfer eich storfa a lleihau'r risg o gael hysbysiad gorfodi trwy gael CNC i fod yn gysylltiedig â'r gwaith yn fuan yn y broses er mwyn ichi allu osgoi camgymeriadau costus.<br><br>Pwysig: os oes angen caniatâd cynllunio arnoch chi, mae CNC yn un o'r rheini y mae'n rhaid ymgynghori â nhw fel rhan o'r broses gynllunio.<br><br>Rhaid i'r ardal dan do gael ei chadw'n storfa silwair. Ni ddylai gosod to olygu y gellir defnyddio'r ardal fel adeilad i dda byw. | | | |

## Eitemau ategol:

| | Eitem | Disgrifiad | Cost safonol | Gwerth y Grant |
|---|---|---|---|---|
| 6 | Draeniau Croes | Draeniau Croes, sy'n cynnwys prynu a gosod system ddraenio amlsianel â gratin. Ar ôl iddi gael ei gosod, dylai'r sianel allu dal pwysau peiriannau trwm sy'n symud yn araf. Gweler Atodiad B. | £82.20 m | £32.88 m |
| 7 | Cwrbin | Cwrbin, yn unol â'r Safonau Prydeinig perthnasol, sef BS 8000 a BS 8500, er mwyn cyfeirio dŵr oddi ar y llwybr. Rhaid iddo fod yn ddigon cadarn i wrthsefyll symudiadau cerbydau fferm ac ni ddylai danseilio'r llwybr mewn unrhyw ffordd. Gweler Atodiad B. | £39.78 m | £15.91 m |
| 8 | Dargyfeiryddion Dŵr ar draws Ffordd ('Sleeping Policemen') | Dargyfeiryddion dŵr ar draws ffordd, yn unol â'r Safonau Prydeinig perthnasol, sef BS 8000 a BS 8500, er mwyn cyfeirio dŵr oddi ar y llwybr. Rhaid iddynt fod yn ddigon cadarn i wrthsefyll symudiadau cerbydau fferm ac ni ddylent danseilio'r llwybr mewn unrhyw ffordd. Gweler Atodiad B. | £36.36 m | £14.54 m |
| 9 | Nwyddau Dŵr Glaw (Cafnau Glaw) – Dim ond ar gyfer adeiladau fferm sy’n bodoli eisoes | Nwyddau Dŵr Glaw (Cafnau Glaw). Mae hyn ar gyfer darparu cafnau glaw newydd **ar adeiladau fferm sy'n bodoli eisoes**. Rhaid cyfeirio dŵr glân o gafnau glaw newydd i mewn i ddraen dŵr glân neu system cynaeafu dŵr glaw. Gweler Atodiad B. | £9.02 m | £3.61 m |
| 10 | Nwyddau Dŵr Glaw (Pibellau Glaw) – Dim ond ar gyfer adeiladau fferm sy’n bodoli eisoes | Nwyddau Dŵr Glaw (Pibellau Glaw). Mae hyn ar gyfer darparu pibellau glaw newydd **ar adeiladau fferm sy'n bodoli eisoes**. Rhaid cyfeirio dŵr glân o bibellau glaw newydd i mewn i ddraen dŵr glân neu system cynaeafu dŵr glaw. Gweler Atodiad B. | £15.04 m | £6.02 m |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 11 | Systemau cynaeafu a hidlo dŵr glaw (Ar wyneb y ddaear) | Systemau cynaeafu a hidlo dŵr glaw (Ar wyneb y ddaear). Tanc ar wyneb y ddaear, system hidlo a thapiau a ffitiadau cysylltiedig. Maint gofynnol y tanc 10,000 o litrau o leiaf. Rhaid iddo gynnwys system hidlo 'ar fynediad'. Rhaid dargyfeirio gorlif i ddraen dŵr glân. Rhaid i'r dŵr allu cael ei ddefnyddio at ddibenion glanhau neu olchi neu i'w yfed. (Rhaid iddo fod wedi'i gysylltu â system addas).<br><br>Rhaid dargyfeirio gorlif i ddraen dŵr glân.<br><br>Dylai'r tanc fod wedi'i osod ar sylfaen addas, naill ai tywod neu goncrid ar lefel y ddaear, neu ar sylfaen adeiledig er mwyn darparu lle clir ar gyfer unrhyw allfa. Rhaid i'r sylfaen neu'r stand fod yn ddigon cryf i gynnal y tanc pan fydd yn llawn a gwneud hynny am oes y tanc.<br><br>Mae safon BS 8515 yn ymdrin â dyluniad ac adeiladwaith systemau cynaeafu dŵr glaw a rhaid i unrhyw system cynaeafu dŵr glaw gydymffurfio â BS8515. | £1,622.00 yr un | £649.00 yr un |
| 12 | Systemau cynaeafu a hidlo dŵr glaw (Dan y ddaear) | Systemau cynaeafu a hidlo dŵr glaw (Dan y ddaear) Cesglir dŵr glaw o arwynebedd to o 1,000 msg o leiaf. Tanc dan y ddaear, system hidlo a chysylltwyr a ffitiadau cysylltiedig, pwmp dŵr, hidlydd golau uwchfioled (UV). Maint gofynnol y tanc 20,000 o litrau o leiaf. Rhaid iddo gynnwys system hidlo 'ar fynediad'. Rhaid cyfeirio gorlif i ddraen dŵr glân. Rhaid i'r dŵr allu cael ei | £9,000.00 yr un | £3,600.00 yr un |

| | Eitem | Disgrifiad | Cost safonol | Gwerth y Grant |
|---|---|---|---|---|
| | | ddefnyddio at ddibenion glanhau neu olchi neu i'w yfed. (Rhaid iddo fod wedi'i gysylltu â system addas).<br><br>Mae safon BS 8515 yn ymdrin â dyluniad ac adeiladwaith systemau cynaeafu dŵr glaw a rhaid i unrhyw system cynaeafu dŵr glaw gydymffurfio â BS8515. | | |
| 13 | Cyfarpar dadansoddi slyri | Cyfarpar dadansoddi slyri sy'n addas i'w ddefnyddio ar y fferm i fesur y lefelau nitrogen sydd ar gael mewn slyri / tail buarth. | £415.00 yr un | £166.00 yr un |

# Atodiad B – Matrics Sgorio

## Matrics sgorio ardaloedd â blaenoriaeth o ran ansawdd dŵr a swm dŵr

| A | B | C | D | E | F | G | H | I | J | K | L |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Sgôr Gwelliant (OND I'W GYNNWYS YN Y SGÔR TERFYNOL OS YN GYMWYS) | | | | | | |
| **Ardal â Blaenoriaeth o ran Ansawdd Dŵr** | **Lluosydd Ardal â Blaenoriaeth o ran Ansawdd Dŵr** | **Sgôr yr eitem** | **Ardal â Blaenoriaeth o ran Swm Dŵr** | **Pwyntiau Ardal â Blaenoriaeth o ran Swm Dŵr** | **Tystiolaeth o Faterion Maethynnau** | **SoDdGA Biolegol a 300m o Lain Clustogi** | **Gwyniad** | **Afonydd Sensitif** | **Llynnoedd Sensitif** | **Misglen Berlog yr Afon** | **Sgôr derfynol = (BxC)+E+F+G+H+I+J+K** |
| 1 | 100 | Mewnosodwch sgôr y brif eitem | 1 | 10 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 2 | 20 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 3 | 100 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 4 | 180 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 5 | 320 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 6 | 600 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 7 | 200 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 8 | 200 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | Dd/G | 5 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| 2 | 80 | Mewnosodwch sgôr y brif eitem | 1 | 10 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 2 | 20 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 3 | 100 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 4 | 180 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 5 | 320 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 6 | 600 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 7 | 200 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 8 | 200 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | Dd/G | 5 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| 3 | 70 | Mewnosodwch sgôr y brif eitem | 1 | 10 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 2 | 20 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 3 | 100 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 4 | 180 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 5 | 320 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 6 | 600 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 7 | 200 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 8 | 200 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | Dd/G | 5 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| 4 | 50 | Mewnosodwch sgôr y brif eitem | 1 | 10 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 2 | 20 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 3 | 100 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 4 | 180 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 5 | 320 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 6 | 600 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 7 | 200 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 8 | 200 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | Dd/G | 5 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| 5 | 20 | Mewnosodwch sgôr y brif eitem | 1 | 10 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 2 | 20 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 3 | 100 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 4 | 180 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 5 | 320 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 6 | 600 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 7 | 200 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 8 | 200 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | Dd/G | 5 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| NA | 10 | Mewnosodwch sgôr y brif eitem | 1 | 10 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 2 | 20 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 3 | 100 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 4 | 180 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 5 | 320 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 6 | 600 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 7 | 200 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 8 | 200 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | Dd/G | 5 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |

# Atodiad C – Nodiadau technegol

## 6. DRAENIAU CROES (Amlsianel)

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon ofynnol o waith y mae angen ei sicrhau er mwyn cael taliadau ar gyfer 'Draeniau Croes (amlsianel)', fel y'i nodir yn eich Llythyr Dyfarnu Grant Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau. Lle y ceir dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n gwyro oddi wrth y safon hon, gellir defnyddio'r rhain, ond mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gymeradwyo unrhyw wyriad sylweddol.

Sianel agored yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ryng-gipio dŵr ffo o lwybrau ac iardiau, am y gellir clirio silt a gweddillion cronedig ohoni' n hawdd. Wedyn, gellir dargyfeirio'r dŵr hwn i ffosydd, pantiau a thrapiau gwaddodion er mwyn sicrhau na chaiff afonydd gerllaw eu llygru yn ystod fflachlifoedd.

Bydd y gwaith yn cynnwys prynu a gosod system ddraenio amlsianel â gratin. Ar ôl iddi gael ei gosod, dylai'r sianel allu dal pwysau peiriannau trwm sy'n symud yn araf.

Y lleiafswm o waith a ddisgwylir:

- Cloddio ffos ar draws lled y llwybr neu ar hyd rhan o'r buarth, gan sicrhau ei bod yn ddigon dwfn a llydan ar gyfer y sylfaen a'r amgylchyn concrid.
- Gwneud yn siŵr bod allfa'r ffos hon yn rhedeg i ffos neu bant addas neu rywle lle mae'r dŵr glân yn dal i fod wedi'i wahanu oddi wrth ddŵr brwnt.
- Gwneud yn siŵr bod sylfaen y ffos yn disgyn yn raddol tuag at yr allfa, gan ddilyn dyfnder y sianel arfaethedig.
- Sicrhau bod unrhyw saethau ar ochr y sianel yn pwyntio at yr allfa h.y. i gyfeiriad y llif.
- Pennu lefelau a gosod y sianeli wrth ochr y ffos, gan ddechrau wrth yr allfa bob amser.
- Arllwys y sylfaen – Dechreuwch wrth yr allfa, dylech arllwys sylfaen goncrid o ansawdd da i mewni'r ffos.
- Gan weithio i ffwrdd oddi wrth yr allfa, gostyngwch y sianeli i lawr i'w lle gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.
- Cadarnhau bod aliniad y sianel yn briodol.
- Dylai'r gratin gael ei osod yn llac a'i lapio â phlastig, gan rychwantu uniadau'r sianel er mwyn sicrhau gosodiad terfynol glân.
- Wedyn, gallwch arllwys yr amgylchyn concrid i mewn i'r ffos, gan sicrhau na therfir ar linell y llwybr. Dylai orffen 3mm uwchlaw'r sianel ac arwyneb uchaf y gratin.
- Pan fydd y concrid wedi caledu, codwch y gratin a thynnwch y plastig amddiffynnol.
- Er mwyn dal pwysau peiriannau sy'n symud yn araf, mae angen gosod sylfaen ac amgylchyn concrid o 200m o leiaf, oni nodir yn wahanol gan gyfarwyddiadau gosod system amlsianel.

Efallai y bydd angen cael caniatâd neu drwydded ar gyfer gwaith penodol y byddwch, o bosibl, yn ei wneud o dan eich Dyfarniad Grant Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau cyn dechrau arno. Sicrhewch eich bod yn gwneud y gwaith yn unol â'r trwyddedau neu'r caniatâd a roddir yn eich Llythyr Dyfarnu Grant.

Chi fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl ofynion diogelwch yn cael eu bodloni wrth wneud unrhyw waith.

## 7. CWRBIN

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon ofynnol o waith y mae angen ei sicrhau er mwyn cael taliadau ar gyfer ‘Cwrbin’, fel y'i nodir yn eich Llythyr Dyfarnu Grant Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau. Lle y ceir dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n gwyro oddi wrth y safon hon, gellir defnyddio'r rhain, ond mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gymeradwyo unrhyw wyriad sylweddol.

Gall fod yn briodol defnyddio Cwrbin ar draws neu ar hyd y llwybr er mwyn cyfeirio dŵr oddi ar y llwybr. Rhaid iddo fod yn ddigon cadarn i wrthsefyll symudiadau cerbydau fferm ac ni ddylai danseilio'r llwybr mewn unrhyw ffordd. Ar gyfer llwybrau, dylai gwaith gynnwys y canlynol:

- Cloddio ffos ar draws llwybr sydd o leiaf 300mm o ddyfnder.
- Llenwi'r ffos â choncrid a lletemu cerrig cwrb sy'n ymwthio allan o'r llwybr.
- Tampro'r concrid ar ochr isaf y llwybr hyd at ymyl y garreg gwrb.
- Gadael concrid ar wyneb y llwybr yn wastad islaw lefel y garreg gwrb.
- Cerrig cwrb – 900mm x 255mm x 125mm ('half battered')
- Dylid cyfeirio'r dŵr o'r cwrbin i allfa ddraenio sefydlog megis ffos, cwlfert neu arllwysfa ddraenio arall.
- Dylid gwneud gwaith concrid yn unol â'r Safonau Prydeinig perthnasol, sef BS 8000 a BS 8500.

Efallai y bydd angen cael caniatâd neu drwydded ar gyfer gwaith penodol y byddwch, o bosibl, yn ei wneud o dan eich Dyfarniad Grant Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau cyn dechrau arno. Sicrhewch eich bod yn gwneud y gwaith yn unol â'r trwyddedau neu'r caniatâd a roddir yn eich Llythyr Dyfarnu Grant.

Chi fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl ofynion diogelwch yn cael eu bodloni wrth wneud unrhyw waith.

## 8. DARGYFEIRYDDION DŴR AR DRAWS FFORDD ('SLEEPING POLICEMEN')

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon ofynnol o waith y mae angen ei sicrhau er mwyn cael taliadau ar gyfer ‘Dargyfeiryddion Dŵr ar draws Ffordd’, fel y'i nodir yn eich Llythyr Dyfarnu Grant Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau. Lle y ceir dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n gwyro oddi wrthy safon hon, gellir defnyddio'r rhain, ond mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gymeradwyo unrhyw wyriad sylweddol.

Gall dargyfeiryddion dŵr ar draws ffordd (twmpathau croes) fod yn briodol i gyfeirio dŵr oddi ar y llwybr. Rhaid iddynt fod yn ddigon cadarn i wrthsefyll symudiadau cerbydau fferm ac ni ddylent danseilio'r llwybr mewn unrhyw ffordd. Mae'r bwlch a adewir rhwng y twmpathau croes yn hollbwysig a dylech geisio cyngor os oes angen. Ar gyfer llwybrau, dylai gwaith gynnwys y canlynol:

- Cloddio ffos ar draws llwybr sydd o leiaf 100mm o ddyfnder
- Lletemu concrid i mewn i'r ffos a hyd at uchder o 150mm o leiaf uwchlaw lefel y llwybr.
- Dylid gwneud gwaith concrid yn unol â'r Safonau Prydeinig perthnasol, sef BS 8000 a BS 8500.

- Dylid cyfeirio'r dŵr o'r dargyfeiryddion dŵr ar draws ffordd i allfa ddraenio sefydlog megis ffos, cwlfert neu arllwysfa ddraenio arall.

Efallai y bydd angen cael caniatâd neu drwydded ar gyfer gwaith penodol y byddwch, o bosibl, yn ei wneud o dan eich Dyfarniad Grant Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau cyn dechrau arno. Sicrhewch eich bod yn gwneud y gwaith yn unol â'r trwyddedau neu'r caniatâd a roddir yn eich Llythyr Dyfarnu Grant.

Chi fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl ofynion diogelwch yn cael eu bodloni wrth wneud unrhyw waith.

## NWYDDAU DŴR GLAW (9. CAFNAU GLAW a 10. PIBELLAU GLAW)

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon ofynnol o waith y mae angen ei sicrhau er mwyn cael taliadau ar gyfer ‘Nwyddau Dŵr Glaw – Cafnau Glaw’ a ‘Nwyddau Dŵr Glaw – Pibellau Glaw’, fel y'i nodir yn eich Llythyr Dyfarnu Grant Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau. Lle y ceir dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n gwyro oddi wrth y safon hon, gellir defnyddio'r rhain, ond mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gymeradwyo unrhyw wyriad sylweddol.

**Nwyddau dŵr glaw**

Mae hyn ar gyfer darparu nwyddau dŵr glaw (pibellau glaw) newydd lle mae nwyddau dŵr glaw aneffeithiol sy'n bodoli eisoes yn gollwng dŵr glân i iardiau wedi'u baeddu neu lle mae dŵr glân yn llifo i iardiau o'r fath am nad oes unrhyw nwyddau dŵr glaw i'w ddargyfeirio. Mae'r opsiwn hwn ar gyfer adeiladau sy'n bodoli eisoes yn y buarth nad oes ganddynt nwyddau dŵr glaw ar hyn o bryd neu sydd â nwyddau dŵr glaw sydd wedi mynd y tu hwnt i'w hoes ddefnyddiol ac y mae angen gosod rhai newydd yn eu lle. Rhaid cyfeirio dŵr glân o nwyddau dŵr glaw newydd i mewn i ddraen dŵr glân.

Nid yw nwyddau dŵr glaw ar adeiladau newydd arfaethedig yn gymwys i gael grant, am y dylai'r rhain gael eu cynnwys fel rhan o'r prif brosiect i godi to newydd.

Pan fo risg y caiff nwyddau dŵr glaw eu difrodi gan dda byw, dylid rhoi mesurau amddiffyn addas ar waith.

**Dylai gwaith:**

- Fodloni gofynion Cynllunio Gwlad a Thref.
- Bod wedi'i gynllunio'n briodol at y dibenion amaethyddol y bwriedir ei ddefnyddio ar eu cyfer.
- Cael ei wneud dim ond pan fyddwch wedi ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch eichasesiad o ddŵr glân ac ynghylch caniatadau gollwng.
- Defnyddio cafnau glaw, pibellau glaw a bracedau sy'n bodloni BS EN 607, BS EN 12200 a BS EN1462 ac sy'n briodol o ran eu maint i ddelio â swm y dŵr o'r to.
- Dylai gwaith gosod fodloni'r holl Safonau Prydeinig perthnasol, e.e. BS 5502, BS EN1917. Dylaigwaith draenio gydymffurfio â BS 8000, BS EN 752 a BS EN 1610.
- Cydymffurfio â Rheoliadau Iechyd a Diogelwch a Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2007.
- Cydymffurfio â Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999.

Mae'r rheoliadau hyn yn gosod dyletswyddau ar gyflogwyr a'r hunangyflogedig i gynnal asesiad addas a digonol o'r risgiau i'w hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac iechyd a diogelwch eraill sy'n gysylltiedig â'rgwaith y maent yn ei wneud. Gelli lawrlwytho pecyn meddalwedd hunanasesu HSE i ffermydd, sydd am ddim, o:

www.hse.gov.uk/agriculture/assessment.

Efallai y bydd angen cael caniatâd neu drwydded ar gyfer gwaith penodol y byddwch, o bosibl, yn ei wneud o dan eich Dyfarniad Grant Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau cyn dechrau arno. Sicrhewch eich bod yn gwneud y gwaith yn unol â'r trwyddedau neu'r caniatâd a roddir yn eich Llythyr Dyfarnu Grant.

Chi fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl ofynion diogelwch yn cael eu bodloni wrth wneud unrhyw waith.